Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan. .

Cynnwys

Rhagarweiniad	**04**
Diffiniadau a pha mor gyffredin yw camdriniaeth	**05**
Datblygu a gweithredu fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru	**06**
VAWDASV a Phobl Hŷn	**11**
Pa mor gyffredin yw VAWDASV	11
Ffactorau risg	12
Canfyddiadau o ymchwil rhanddeiliaid	14
Cam-drin pobl hŷn yn ariannol ac economaidd	**24**
Pa mor gyffredin yw hyn	26
Ffactorau risg	26
Canfyddiadau o ymchwil rhanddeiliaid	28
Casgliadau ac argymhellion allweddol	**32**
ATODIAD 1: Crynodeb o'r Tirlun Gwasanaeth yng Nghymru - VAWDASV	**35**
ATODIAD 2: Crynodeb o'r Tirlun Gwasanaeth yng Nghymru – Cam-drin Ariannol	**42**
Cyfeiriadau	**49**

Rhagarweiniad

Prif nod y gwaith ymchwil y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno oedd:

- Cyflawni ymarfer mapio cynhwysfawr o'r gwasanaethau yng Nghymru sy'n cynorthwyo pobl hŷn sydd wedi cael neu'n wynebu risg o gael eu cam-drin.
- Adnabod argaeledd a'r math o wasanaethau a ddarperir yng Nghymru.
- Ystyried a yw'r cymorth sydd ar gael yn ddigon i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu derbyn yr help sydd ei angen arnynt, ble a phan fo'i angen arnynt.

Defnyddiwyd y wybodaeth yma i greu cyfeiriadur newydd o Wasanaethau Cymorth Cam-drin – sydd ar gael yn www.olderpeoplewales.com/abusesupport – ac y gall pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill ei ddefnyddio i ddod o hyd i wasanaethau yn eu hardal leol, ac ar draws y wlad, sy'n gallu rhoi help a chymorth i rywun sy'n cael eu cam-drin neu'n wynebu risg o gael eu cam-drin, neu sy'n poeni am rywun arall.

Ond mae'r ymchwil hefyd wedi bod yn gyfle i edrych yn fwy manwl ar y polisïau a'r ymarfer presennol sydd yn eu lle i gynorthwyo pobl hŷn ynghyd â'r systemau a'r strwythurau y maen nhw'n cael eu darparu drwyddynt, a bylchau gwasanaeth posib.

Roedd hefyd yn gyfle i glywed yn uniongyrchol gan randdeiliaid ar draws Cymru, gan gynnwys pobl sydd wedi goroesi cael eu cam-drin, am realiti cael gafael ar wasanaethau, enghreifftiau o ymarfer da, a'r problemau, heriau a'r rhwystrau sy'n gallu effeithio ar bobl hŷn a'u hatal rhag derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r adroddiad hwn, sydd hefyd yn gwneud defnydd o ymchwil a thystiolaeth ehangach o brofiadau pobl hŷn o gamdriniaeth, yn rhoi crynodeb o'r profiadau a glywsom amdanynt a'r problemau y daethom ar eu traws, gan ddangos y prif bethau sydd angen newid.

Mae'r atodiadau hefyd yn rhoi gwybodaeth bellach a mwy manwl i ddarllenwyr am y gwasanaethau, systemau a strwythurau sydd yn eu lle yng Nghymru i amddiffyn pobl hŷn rhag camdriniaeth a rhoi cymorth iddynt, a'r gwahanol rolau y mae nifer fawr o fudiadau yn ei chwarae ar hyd a lled Cymru.

Hoffai'r Comisiynydd ddiolch i bawb a gyfrannodd dystiolaeth i'r gwaith ymchwil hwn am rannu ystod mor ddefnyddiol o brofiadau a barn.

Cafodd y gwaith ymchwil y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno ei wneud rhwng Tachwedd 2020 ac Ionawr 2021 gan Dr Norma Barry a Rhian Bowen-Davies o gwmni Inside Out Organisational Solutions. Hoffai'r Comisiynydd ddiolch iddynt am ddarparu sylfaen dystiolaeth mor gyfoethog ar gyfer yr adroddiad hwn.

Diffiniadau a pha mor gyffredin yw camdriniaeth

Mae sawl ffurf ar gamdriniaeth, ac fel y byddwn yn ei drafod yn fwy manwl isod, gall effeithio'n sylweddol ar bobl hŷn.

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol [VAWDASV] (Cymru) 2015 yn diffinio ystod o droseddau fel camdriniaeth / cam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, trais yn erbyn menywod – fel ecsbloetio a harasio rhywiol – ac ymddygiad rheoli dichellgar a thrwy orfodaeth.

Ynghyd â'r mathau hyn o gam-drin, gall pobl hŷn hefyd brofi cam-drin ariannol a allai gynnwys pobl yn dwyn eu harian neu eiddo, cael eu twyllo, cael eu rhoi dan bwysau gydag arian neu eiddo, neu lle mae eu harian neu eiddo'n cael ei gam-ddefnyddio.

Er yr ymwybyddiaeth gynyddol o bobl hŷn yn cael eu cam-drin, nid oes dal yr un darlun clir o faint o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin oherwydd bod y data'n gyfyngedig iawn, fel y byddwn yn ei drafod isod.

Yn ôl rhai amcan-ffigurau, mae degau o filoedd o bobl hŷn yn cael eu cam-drin yng Nghymru gydag ymchwil arall yn awgrymu bod y ffigur yn llawer uwch – yn ôl astudiaeth gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), ar draws y byd mae un o bob chwech o bobl hŷn yn profi rhyw fath o gamdriniaeth. Mae hyn yn golygu y gallai'r ffigur yng Nghymru fod dros 140,000.[1]

Hefyd, o ystyried y disgwylir i nifer y bobl hŷn yng Nghymru gynyddu'n sylweddol – i dros filiwn erbyn 2030 (i fyny o tua 830,000 heddiw) – gallai miloedd yn fwy o bobl hŷn gael eu cam-drin neu ganfod eu hunain mewn perygl o gael eu cam-drin yn y dyfodol oni bai fod rhywbeth yn cael ei wneud am y peth.

Datblygu a gweithredu fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru

Ategir y polisïau a'r ymarfer sy'n ymwneud ag atal cam-drin ac amddiffyn unigolion sydd eisoes yn cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin yng Nghymru gan y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a basiwyd yn 2015 ac a oedd yn seiliedig ar 'Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel' 2010.[2]

Pwrpas y Ddeddf yw gwella'r mesurau sydd yn eu lle i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn ogystal ag amddiffyn a rhoi cymorth gwell i ddioddefwyr. Roedd y Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i baratoi strategaethau i'w gweithredu.[3]

Arweiniodd hyn at gyhoeddi Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 sy'n disgrifio sut y bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cyflwyno chwe amcan wedi eu cysylltu i egwyddorion atal, amddiffyn a chymorth:

- Codi ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru;
- Codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach ac nad yw ymddygiad camdriniol byth yn iawn;
- Rhoi mwy o ffocws ar ddal camdrinwyr i gyfrif a rhoi cyfle iddyn nhw newid eu hymddygiad ar sail diogelu'r dioddefwr;
- Rhoi blaenoriaeth i atal ac ymyrryd yn gynnar;
- Hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i ymateb yn effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin; a
- Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau seiliedig ar gryfderau ac anghenion o ansawdd uchel, wedi eu teilwrio i rywedd, ar draws Cymru gyfan.

Mae mesurau pellach i gynorthwyo gweithrediad y Ddeddf yn cynnwys:

- Canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol, e.e. y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (NTF) a Chomisiynu Gwasanaethau VAWDASV
- Safonau a chanllawiau ymarfer da ar weithio gyda chamdrinwyr
- Canllawiau ymarfer da ar weithredu dull addysg cyfan
- Datblygu dangosyddion VAWDASV cenedlaethol
- Datblygu Strategaeth Gyfathrebu Genedlaethol ar gyfer VAWDASV, gan gynnwys ymgyrchoedd fel "Croesi'r Llinell" a "Paid Cadw'n Dawel".
- Sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr

Mae'r Ddeddf, y Strategaeth Genedlaethol a'r holl bolisïau'n berthnasol i unrhyw unigolion a allai fod yn profi unrhyw fath o VAWDASV. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod VAWDASV yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, mae ei fframweithiau deddfwriaethol a pholisi'n hollol glir y dylai terminoleg VAWDASV fod yn berthnasol i unrhyw ddioddefwr, pa bynnag rywedd neu darddiad ethnig y gallent uniaethu â nhw. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i ystyried anghenion pobl gyda nodweddion gwarchodedig wrth gomisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru.

Noda'r canllawiau hyn hefyd y gallai cymorth i bobl sy'n profi VAWDASV ddod gan amrywiaeth o wahanol fudiadau – mudiadau cymunedol neu drydydd sector, darparwyr statudol awdurdod lleol, cyrff iechyd neu asiantaethau cyfiawnder troseddol – yn ogystal â chymorth gan wasanaethau arbenigol (drwy fudiadau sy'n annibynnol i'r wladwriaeth a'u busnes craidd yn ymwneud â rhoi cymorth i rai a effeithiwyd gan VAWDASV, gan staff gyda gwybodaeth arbenigol a manwl).

Drwy hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cydweithredu â chyrff statudol a mudiadau trydydd sector eraill i ddylanwadu ar bolisi a chyflwyno nifer o raglenni i roi cymorth i bobl yr effeithiwyd arnynt gan VAWDASV, gan gynnwys:

- Ariannu'r llinell gymorth Byw Heb Ofn sy'n rhoi help, cyngor a chymorth brys i bobl.
- Ariannu Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) i roi cymorth a chefnogaeth uniongyrchol i ddioddefwyr.
- Datblygu a chyflwyno'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol sy'n rhoi canllawiau statudol i weithwyr proffesiynol allweddol yn y sector cyhoeddus ac sy'n gweithio i ddarparwyr arbenigol yng Nghymru er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel eu bod yn gallu ymateb yn well pan fydd pobl yn datgelu.
- Cyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' – proses o holi wedi'i dargedu ar draws y sector cyhoeddus i geisio adnabod mwy o bobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn well iddynt. Mae Gofyn a Gweithredu'n cael ei gyflwyno ar draws yr awdurdodau perthnasol a ddisgrifir yn y Ddeddf sef awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, y gwasanaethau tân ac achub, ac ymddiriedolaethau'r GIG.
- Datblygu a gweithredu Fframwaith Cyfathrebu Cenedlaethol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i herio a chodi ymwybyddiaeth pobl o agweddau, ymddygiad ac ymarfer sy'n ymwneud â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu o dan y fframwaith hwn yn cynnwys:
    - Ymgyrchoedd fel 'Dyma Fi' i geisio herio stereoteipio ar sail rhyw ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a 'Paid Cadw'n Dawel' sy'n annog unrhyw un i ymyrryd yn bositif neu wneud rhywbeth os ydyn nhw'n poeni bod rhywun y maen nhw'n eu hadnabod yn dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
    - Datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr i sicrhau bod gwasanaethau'n deall anghenion a phrofiadau goroeswyr, gan gynnwys y rhai mwyaf ymylol.

- Penodi Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i roi cyngor ar sut i weithredu Deddf 2015 a gweithio gyda goroeswyr a rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu a chyflwyno gwelliannau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, comisiynu a'u darparu.

- Cyhoeddi cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol sy'n cyd-fynd â'r dangosyddion lles cenedlaethol.

Craffu gweithrediad y Ddeddf

Yn 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) adroddiad yn trafod y cynnydd gyda gweithredu'r Ddeddf VAWDASV. Cyflwynodd yr adroddiad ganfyddiadau ac argymhellion ar gyfer tri maes allweddol:

Gweithio gyda'n gilydd

Casglodd yr adroddiad nad yw awdurdodau lleol a'u partneriaid, at ei gilydd, yn llwyr ddeall y gwasanaethau VAWDASV sydd ar gael na'r galw amdanynt. Roedd yn argymell bod asesiadau anghenion yn cael eu gwneud, ochr yn ochr â gweithio gyda rhanddeiliaid i fapio gwasanaethau, er mwyn creu darlun cywir o wasanaethau a chanfod unrhyw fylchau.

Argymhellodd yr adroddiad hefyd fod cyrff cyhoeddus yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr mewn sawl gwahanol fformat am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a rhoi cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr; y dylid creu llwybr ar-y-cyd i roi mynediad at wasanaethau a chymorth i ddioddefwyr a staff proffesiynol; ac y dylid hyrwyddo'r trefniadau'n eang.

Atal

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod peth cynnydd wedi'i wneud o ran atal gan nodi bod landlordiaid tai cymdeithasol, ar y cyfan, yn gweithio'n dda i gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr a bod cydweithredu effeithiol wedi bod mewn rhai rhannau o'r wlad.

Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bylchau posib mewn gwaith atal o ran gweithio gyda chamdrinwyr i atal cam-drin, gan nodi mai dim ond un o bob pum gwasanaeth sy'n rhoi cymorth priodol i gamdrinwyr.

Galwodd yr adroddiad ar gyrff darparu i adolygu eu dulliau o weithio'n rhanbarthol er mwyn integreiddio gwasanaethau'n well a chryfhau effaith gwasanaethau i oroeswyr a dioddefwyr, yn ogystal â galw am hyfforddi staff a rheolwyr a phrotocolau rhannu data newydd i sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithiol

.

Cyllid a chomisiynu

Roedd yr adroddiad yn codi pryderon am natur y cymorth ariannol sydd ar gael i wasanaethau VAWDASV a'i fod yn aml yn ddarniog, cymhleth, anghyson a thymor byr, gan hefyd dynnu sylw at wendidau mewn gwerthuso perfformiad ac asesu gwerth am arian.

Roedd yr adroddiad felly'n galw ar awdurdodau lleol i adolygu eu trefniadau comisiynu i osgoi dyblygu neu orgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau o weithio, yn galw ar iddynt weithio'n fwy effeithlon, symleiddio a safoni trefniadau comisiynu a gosod targedau, mesurau perfformiad a meincnodau priodol.

Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio

Bydd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn cael ei chyhoeddi yn yr hydref 2021 yn dilyn proses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021.[4]

Un o flaenoriaethau penodol y strategaeth arfaethedig yw rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn ynghyd ag ymrwymo i gyhoeddi a gweithredu cynllun cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn erbyn diwedd 2021, gan weithio gyda'r Comisiynydd a phartneriaid allweddol eraill.

O ystyried y ffyrdd penodol y gall cam-drin effeithio ar bobl hŷn, a'r problemau a'r rhwystrau sy'n aml yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar gymorth, mae'r ymrwymiad hwn i dargedu gweithredu'n benodol at bobl hŷn yn gam pwysig ymlaen o'r strategaeth bresennol[5], lle mae'r gweithredu i atal cam-drin wedi'i brif ffrydio mewn polisïau a dargedir at bobl o bob oed.

Deddfwriaeth y DU

I raddau helaeth, nid yw deddfwriaeth a pholisïau San Steffan ar gam-drin yn effeithio'n uniongyrchol ar Gymru ond mae meysydd allweddol fel plismona, y system gyfiawnder ehangach a'r system les dal heb gael eu datganoli a gall penderfyniadau gan Senedd y DU hefyd effeithio ar y cyllid sydd ar gael i Gymru.

Bu'r Comisiynydd felly'n monitro siwrne'r Bil Cam-drin Domestig yn San Steffan, deddfwriaeth a fu'n destun craffu seneddol dros gyfnod y gwaith ymchwil hwn, a bu'n briffio Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi er mwyn dylanwadu ar drafodaeth a dadleuon gan roi ffocws penodol ar ba mor bwysig yw gwella'r data sydd gennym ar brofiadau pobl hŷn o gamdriniaeth.

Cafodd nifer o ddarpariaethau newydd eu cynnwys yn y Bil:

- diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig sy'n ymgorffori amrediad o gamdriniaeth ar wahân i drais corfforol, gan gynnwys ymddygiad emosiynol, rheoli dichellgar a thrwy orfodaeth, a cham-drin economaidd.
- mesurau gwarchod a chymorth newydd yn system y llysoedd, gan gynnwys na fydd

camdrinwyr mwyach yn cael croesholi eu dioddefwyr yn uniongyrchol yn y llysoedd teulu a sifil, a rhoi mynediad gwell i ddioddefwyr at fesurau arbennig yn ystafell y llys i helpu i atal arswydo - pethau fel sgriniau amddiffyn a rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo.

- pwerau newydd i'r heddlu gan gynnwys Hysbysiadau Amddiffyn Cam-drin Domestig er mwyn gwarchod dioddefwyr yn syth rhag eu camdrinwyr.
- pwerau newydd i'r llysoedd i wneud Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig i helpu i atal troseddu drwy orfodi camdrinwyr i gymryd camau i newid eu hymddygiad.
- sefydlu swydd Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr mewn cyfraith gyda disgrifiad o bwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd.

Derbyniodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth Deddf Cam-drin Domestig 2021 i rym ar 29 Ebrill 2021.[6]

Ochr yn ochr â hyn, bu'r Comisiynydd hefyd yn gweithio ag Age UK ac eraill i bwyso'n llwyddiannus am wneud i ffwrdd â'r uchafswm oed o 74 ar gyfer Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr; mae Ystadegydd Gwladol y DU yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau y bydd y gyfres lawn o ddata pob oed ar gael o 2023 ymlaen.

VAWDASV a Phobl Hŷn

Mae'r cam-drin a brofir gan bobl hŷn, fel gyda phobl o oedrannau eraill, yn cynnwys cam-drin emosiynol a seicolegol, corfforol, rhywiol ac ariannol, ac esgeulustod. Yn aml iawn gyda phobl hŷn, mae rheoli dichellgar a thrwy orfodaeth hefyd yn rhan o'r cam-drin. Yng Nghymru mae'r troseddau hyn wedi eu grwpio gyda'i gilydd o dan VAWDASV – trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn aml iawn mae pobl hŷn yn profi cyfuniad o wahanol gam-drin, sy'n gallu bod yn waeth oherwydd elfennau bregus penodol wrth fynd yn hŷn, fel nam gwybyddol, salwch neu anabledd. Yn aml iawn, gall person hŷn fod wedi cael eu cam-drin am flynyddoedd lawer, gyda'r camdriniwr yn aml mewn rôl ymddiriedol fel ffrind neu berthynas.[7]

Yn ôl y dystiolaeth, ar gyfartaledd mae dioddefwyr hŷn yn cael profiad dwywaith mor hir o gam-drin domestig na rhai dan 61 oed cyn gofyn am help ac mae pobl hŷn wedi eu tangynrychioli'n aruthrol yn y gwasanaethau cam-drin domestig.[8]

Mae nifer o rwystrau wedi cael eu hadnabod a allai atal pobl hŷn rhag derbyn cymorth, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, yr argraff nad oes cymorth ar gael i bobl hŷn, diffyg adnoddau ariannol, teimlad o gywilydd neu embaras, ac ofni'r canlyniadau os ydynt yn sôn am y cam-drin. Gall y rhwystrau hyn fod yn waeth i oroeswyr sydd wedi bod drwy flynyddoedd o gam-drin, sydd wedi eu hynysu mewn cymuned neilltuol drwy iaith neu ddiwylliant, sy'n dioddef effeithiau gwaeledd iechyd neu anabledd hirdymor neu sy'n dibynnu ar eu camdriniwr am eu gofal neu am arian.

Mae tystiolaeth hefyd sy'n dangos nad yw asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â goroeswyr hŷn a chamdrinwyr bob tro'n adnabod y cam-drin domestig sy'n digwydd na'n ymateb yn y ffordd gywir[9], sy'n gallu atal neu achosi oedi cyn derbyn cymorth.

Pa mor gyffredin yw VAWDASV

Oherwydd y bylchau sylweddol yn y data presennol ar brofiadau pobl hŷn o gamdriniaeth, a'r ffaith bod cam-drin domestig ymhlith pobl hŷn yn aml yn cael ei dan-adrodd a'i dan-gofnodi[10], mae'r amcangyfrifon ar ba mor gyffredin yw cam-drin pobl hŷn yn amrywio'n sylweddol.

Prin iawn yw'r ystadegau swyddogol ar gam-drin pobl hŷn, yn enwedig o gofio bod Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ond wedi casglu data ar brofiadau pobl hŷn rhwng 60 a 74 oed (ar gais y Comisiynydd a mudiadau eraill, gwnaed i ffwrdd erbyn hyn â'r uchafswm oed hwn a bydd yr ONS yn cyhoeddi'r data pob oed cyntaf yn 2023).

Yn ôl y data am y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2019, roedd tua 280,000 o bobl rhwng 60-74 oed wedi profi cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl tynnu allan y data perthnasol, ar sail y boblogaeth, byddai'r ffigur hwn ar gyfer Cymru'n tua 15,000.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gadw cofnod o adroddiadau diogelu ar oedolion sydd â risg o gael eu cam-drin neu esgeuluso. Yn 2018-19, roedd cyfanswm o 13,089 digwyddiad gydag amheuon bod pobl dros 65 oed yn cael eu cam-drin neu esgeuluso wedi eu hadrodd i awdurdodau lleol, 52% o'r holl adroddiadau (25,265).

Fodd bynnag, awgryma ymchwil arall fod y ffigurau hyn yn amcan llawer rhy isel o ba mor gyffredin yw cam-drin ymhlith pobl hŷn.

Er enghraifft, yn ôl astudiaeth ryngwladol gan Sefydliad Iechyd y Byd yn 2017[11], mae un o bob chwech o bobl 60+ oed yn cael eu heffeithio gan gamdriniaeth, gan roi ffigur o dros 140,000 ar gyfer Cymru, ac awgryma ymchwil gan Hourglass fod gymaint ag un o bob pump o bobl hŷn – 170,000 yng Nghymru – wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth.[12]

Ffactorau risg

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi adnabod nifer o ffactorau'n fras a allai olygu bod person hŷn yn fwy tebygol o gael eu cam-drin, gan gynnwys rhannu cartref, perthnasoedd teuluol gwael a dod yn fwy dibynnol ar eraill, yn ogystal ag ynysu cymdeithasol a diffyg cymorth cymdeithasol.[13]

Dengys tystiolaeth hefyd fod pobl gyda nodweddion penodol efallai'n fwy tebygol o gael eu cam-drin neu o wynebu rhwystrau ychwanegol yn eu hatal rhag derbyn cymorth.

Er enghraifft, yn ôl data o adroddiadau diogelu a gyflwynir i awdurdodau lleol, mae menywod hŷn yn cael eu cam-drin yn amlach na grwpiau eraill: roedd 33% o adroddiadau diogelu awdurdod lleol yn ymwneud â menywod 65+ oed o'i gymharu â 28% ar gyfer menywod 18-64 oed, a 18% ar gyfer dynion 65+ oed.

Dengys ymchwil hefyd fod un o bob pedwar dioddefwr lladdiad domestig yn 60+ oed a bod y rhan fwyaf o'r dioddefwyr hyn yn fenywod.[14]

Mae byw ag anabledd yn gwneud person hŷn yn fwy tebygol o gael eu cam-drin oherwydd gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn llai abl i amddiffyn eu hunain neu'n llai abl i adnabod, adrodd a dianc rhag camdriniaeth.[15] Gall ffactorau eraill dibyniaeth person ar ofal, diffyg hygyrchedd ffisegol a'r amgylchedd o'u cwmpas, ac ynysu cymdeithasol, hefyd gynyddu'r risg o gam-drin. Mae pobl sy'n byw ag anabledd hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol i dderbyn cymorth fel gwasanaethau iechyd, cymdeithasol a cham-drin domestig.[16]

Mae gan bobl sy'n byw gyda dementia hefyd risg uwch, yn enwedig os ydynt yn dibynnu ar eraill am eu gofal, gydag adroddiad yn 2013 gan y Ganolfan Amddiffyn Pobl Hŷn Genedlaethol yn nodi bod camdriniaeth yn effeithio ar rhwng 27.9% a 55% o bobl gyda dementia.[17] Mae hyn yn golygu y gallai fod rhwng 11,500 a 22,700 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru yn cael eu cam-drin.

Yn ôl tystiolaeth o brofiadau pobl o gymunedau BAME, mae tan-adrodd yn fwy cyffredin mewn cymunedau lleiafrifol ac mae menywod BAME yn fwy tebygol o aros yn hirach mewn perthynas gamdriniol oherwydd rhwystrau'n gysylltiedig â gadael y berthynas.[18] Gallai'r rhwystrau hyn gynnwys diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu neu asiantaethau eraill, gan yrru pobl i chwilio am gymorth anffurfiol[19]; statws economaidd-gymdeithasol ac ynysu cymdeithasol[20]; trafferthion iaith a statws mewnfudo[21]; a phoeni am ddod â chywilydd ar y teulu a / neu'r gymuned.[22] Mae hefyd yn bwysig nodi bod menywod BAME wedi eu 'gorgynrychioli' mewn llochesi: mae menywod BAME yn llenwi chwech allan o bob deg lle mewn lloches er yn cyfrif dim ond am 13% o'r boblogaeth.[13]

Mae problemau a rhwystrau tebyg yn effeithio ar bobl hŷn LGBTQ+ sydd ar y cyfan yn anweledig yn y system gymorth brif ffrwd.[24] Dengys tystiolaeth fod pobl LGBTQ+ yn annhebygol

o chwilio am gymorth a help ac nad yw 60-80% o ddioddefwyr / goroeswyr erioed wedi adrodd digwyddiadau i'r heddlu i ofyn am gyngor neu am gael eu hamddiffyn.[25] Dengys y data hefyd mai dim ond 2.5% o oroeswyr sy'n cysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr sy'n adnabod eu hunain fel LGBTQ+.[26] Mae'r rhwystrau i chwilio am gymorth yn cynnwys diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau oherwydd profiadau blaenorol o homoffobia a thrawsffobia[27] a diffyg dealltwriaeth gan rai gweithwyr proffesiynol o gam-drin domestig yn y gymuned LGBTQ+ sy'n arwain at ragfarn, stereoteipio ac ymatebion anaddas.[28]

Mae pobl hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac yn cael eu cam-drin yn wynebu problemau a rhwystrau ychwanegol i dderbyn gwasanaethau cymorth.[29] Mae cam-drin mewn ardaloedd gwledig yn debygol o bara tua 25% yn hirach na mewn ardaloedd trefol, rhywbeth y gellir ei briodoli'n rhannol i'r ffaith bod llai o adrodd yn digwydd mewn ardaloedd gwledig na rhai trefol. Ymhlith y rhwystrau penodol yw ynysu cymdeithasol, bod y gwasanaethau'n eithaf pell i ffwrdd, opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus prin (neu ddim o gwbl) a chysylltiad band-eang gwael. Ar ben hyn oll, mae pobl mewn ardaloedd gwledig sy'n cael eu cam-drin, ac sydd eisiau dianc, naill ai'n wynebu newid byd mawr drwy symud i ardal fwy trefol neu'n gorfod aros mewn cymuned lle mae'n anodd cuddio a lle maen nhw'n fwy tebygol o ddod ar draws eu camdriniwr.

Effaith Covid-19

Er nad oes gennym ddarlun llawn eto o sut yr effeithiodd y pandemig ar bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, mae'r cyfnod clo wedi gwaethygu ynysu a lleihau cyswllt pobl gyda theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth, a hefyd gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol, ffactorau y gwyddom eu bod yn cynyddu'r risg o gam-drin.

Ar lefel y Deyrnas Unedig, cafwyd cynnydd yn nifer y galwadau ffôn i linellau cymorth cam-drin domestig, ac yn y galw am wasanaethau lloches. Roedd cynnydd o 9% hefyd yn nifer y troseddau cysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng Ebrill a Mehefin 2020 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019, gydag adroddiadau hefyd fod y gyfradd lladdiadau domestig yn y DU wedi dyblu ers gwanwyn 2020.[30]

Ymddengys bod y darlun yng Nghymru'n fwy cymhleth gyda rhai aelodau o'r Grŵp Atal Cam-drin[31], a sefydlwyd gan y Comisiynydd ar ddechrau'r pandemig, yn adrodd cynnydd mewn cyswllt gan bobl yn gofyn am help gan eu gwasanaethau neu wasanaethau yr oeddent yn gweithio â nhw, ond eraill yn nodi bod y nifer wedi gostwng gan efallai adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch pa wasanaethau oedd ar gael i bobl sydd angen cymorth a pha opsiynau a fyddai ar gael pe byddent eisiau dianc o gam-drin.

Canfyddiadau o ymchwil rhanddeiliaid

Methodolegau ymchwil

Defnyddiodd y tîm ymchwil sawl dull gwahanol o gasglu tystiolaeth ar draws nifer o feysydd allweddol yn ymwneud â VAWDASV a darparu gwasanaeth a chymorth:

- Dosbarthu holiaduron i 29 o fudiadau gan gynnwys gwasanaethau VAWDASV arbenigol (cafodd 38% ohonynt eu dychwelyd)
- Dosbarthu holiaduron i bob cymdeithas dai yng Nghymru (er mai cymharol ychydig o'r rhain a gafodd eu dychwelyd, roedd yr ymatebion yn gynrychiadol o ran daearyddiaeth, maint a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu)
- Cyflwyno sylwadau i'r Rhwydwaith Eiriolaeth Cenedlaethol a Grŵp Strategaeth Covid-19 Llywodraeth Cymru, gyda chyfweliadau i ddilyn gydag eiriolwyr annibynnol
- Grŵp ffocws gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)
- Trafodaethau un-i-un â goroeswyr VAWDASV, Cynghorwyr VAWDASV Rhanbarthol, rheolwyr gwasanaethau VAWDASV arbenigol, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), academyddion ac Eiriolwr Addysgwr IRIS
- Adolygu'r adroddiadau a'r data presennol ar VAWDASV

Cyflwynir isod y prif ganfyddiadau ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd.

Darparu gwasanaeth

Yn dilyn dadansoddi'r holiaduron a ddaeth yn ôl gan y darparwyr gwasanaethau arbenigol, roeddent i gyd o'r farn bod eu gwasanaethau ar gael ac yn addas i bawb dros 16 oed, er yn cydnabod bod angen i wasanaethau addasu i apelio ac ymateb yn well i bobl hŷn sy'n profi VAWDASV. Cyfeiriwyd yn benodol at broblemau neilltuol o ran cael gafael ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, cymorth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, a phrinder gwasanaethau yn Gymraeg, a allai fod yn rhwystrau ychwanegol i bobl hŷn gyda chael gafael ar wasanaethau.

Dangosodd yr ymatebion fod diffyg lleisiau pobl hŷn yn y broses o ddatblygu gwasanaethau, a methu ag ystyried eu profiadau VAWDASV, yn ffactor sylweddol i esbonio pam fod cyn lleied o wasanaethau'n cael eu haddasu i ganolbwyntio'n benodol ar anghenion pobl hŷn.

Mae peth gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â hyn, fel y gwasanaethau IDVA ac ISVA, cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion pobl hŷn drwy'r hyfforddiant SafeLives er mwyn gwella ymateb y gwasanaethau. Yn yr un modd, mae Llwybrau Newydd wedi penodi ISVA gyda ffocws penodol ar ymgysylltu'n well â phobl hŷn sy'n dioddef cam-drin a thrais rhywiol. Cafodd ei nodi, fodd bynnag, er bod y mudiadau hyn wedi adnabod bod angen gwella eu gwasanaethau i bobl hŷn, nad yw'r mesurau hyn yn gyson ar draws y system.

Awgrymwyd y gallai addasu'r modelau gwasanaeth presennol – i roi mwy o amser i sefydlu ymddiriedaeth a hyder ac i gyflwyno ymyriadau mwy hirdymor, er enghraifft – helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cwrdd yn fwy effeithiol ag anghenion pobl hŷn. Dywedodd ymarferwyr hefyd fod angen delio ag achosion o bobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV fesul achos er mwyn penderfynu sut orau i ateb anghenion personol yr unigolion hyn, er bod y prosesau presennol yn ymddangos i fod yn gweithio'n groes i'r egwyddor hon ar lefel leol.

Awgrymwyd bod angen integreiddio VAWDASV a diogelu'n well ar lefel weithredol a lefel system er mwyn ymateb yn well i bobl hŷn, yn enwedig mewn achosion lle mae gwrthdaro ynghylch a ddylid cynorthwyo unigolion drwy'r broses MARAC (Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaethol) neu'r broses ddiogelu. Byddai cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau VAWDASV arbenigol a gwasanaethau oedolion hefyd yn helpu i sicrhau bod gan bobl hŷn nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer diogelu statudol a MARAC lwybr clir i ofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth.

Ochr yn ochr â newidiadau i systemau a phrosesau, roedd rhai ymatebion hefyd yn nodi pa mor bwysig oedd sicrhau bod staff gwasanaethau oedolion yn cydnabod VAWDASV a bod unigolion yn cael eu hatgyfeirio'n briodol. Roedd yr ymatebion yn nodi bod gan staff gwasanaethau oedolion rôl allweddol i'w chwarae mewn adnabod a diogelu pobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV ond nad ydynt bob amser yn adnabod y cam-drin yn digwydd, gyda'r broblem o ganlyniad yn cael ei hesgeuluso. Ymddengys bod hyn wedi'i adlewyrchu yn y data ar atgyfeirio a rannwyd gan rai gwasanaethau arbenigol, a ddangosodd mai dim ond 4-9% o achosion atgyfeirio oedd yn bobl hŷn.

Ymarfer Da: Prosiect Dewis

Cafodd y prosiect Dewis ei gyd-ddylunio gyda phobl hŷn yn dilyn ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth wnaeth ganfod nad oedd pobl hŷn yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau cam-drin domestig arbenigol na'r heddlu, ac yn aml iawn yn derbyn fawr ddim ôl-gymorth.

Mae'r Prosiect Dewis yn rhoi cymorth i 20 o bobl hŷn drwy Weithiwr Cymorth Dewis sy'n buddsoddi amser mewn sefydlu perthynas â'r person hŷn drwy weithio'n agos gyda nhw i roi'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn gallu gwneud eu penderfyniadau a'u dewisiadau eu hunain. Mae ffocws hefyd ar ddarparu gwasanaeth person-ganolog holistig, cydgysylltiedig sy'n ystyried unrhyw anghenion ehangach a allai fod gan yr unigolyn.

Mae'r prosiect yn rhannu'r hyn y mae'n ei ddysgu fel bod gwasanaethau'n deall yn well beth sy'n gweithio orau wrth gynorthwyo pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig ac er mwyn goleuo gwelliannau mewn ymarfer, gan wneud gwaith ehangach i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith gwasanaethau cyhoeddus:

- Darparu hyfforddiant pwrpasol seiliedig ar dystiolaeth a chanfyddiadau'r ymchwil sydd wedi'i gyflwyno i dros 7,000 o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r Alban.
- Datblygu hyfforddiant ac adnoddau ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn dioddef cam-drin domestig.
- Datblygu a chyhoeddi Llawlyfr i Ymarferwyr mewn mudiadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn a allai fod yn cael eu cam-drin, fel yr heddlu a chyrff trydydd sector.

- Gweithio gyda SafeLives i ddatblygu rhaglen hyfforddiant beilot i gynghorwyr IDVA i roi sgiliau a gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo pobl hŷn iddynt.

Tai a llety

Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd y Comisiynydd ddigwyddiad bwrdd crwn i drafod materion yn ymwneud â'r llety sydd ar gael i bobl hŷn sydd angen gadael perthynas gamdriniol, ac i weld pa newidiadau a gwelliannau oedd angen eu gwneud.[32] Ymhlith y rhai a fynychodd y digwyddiad oedd aelodau o'r Grŵp Atal Cam-drin[33] ynghyd â rhanddeiliaid eraill yn cynnwys y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr, Nicole Jacobs.

Clywodd y rhai oedd yn bresennol yn uniongyrchol gan oroeswr cam-drin domestig a ddisgrifiodd y trafferthion a'r rhwystrau sylweddol a wynebodd fel ei bod bron yn amhosib iddi adael ei gŵr camdriniol. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i edrych ar ganfyddiadau'r arolwg o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a wnaed ar ran y Comisiynydd, a ddangosodd yn ôl pob golwg fod prinder penodol o lety i bobl hŷn sy'n byw gydag anableddau a / neu broblemau symudedd, a bod anawsterau weithiau wrth geisio helpu pobl i symud o lety brys i lety arall. Defnyddiodd y rhai a oedd yn bresennol y dystiolaeth i adnabod sawl maes lle'r oedd angen gweithredu, ar fyrder ac yn fwy hirdymor, gan gynnwys:

- Gwella'r opsiynau tai a chymorth, gan gynnwys darparu llety hygyrch gyda chymorth, i rai sydd ei angen arnynt
- Gwella mynediad at y gwasanaethau presennol, gan gynnwys adolygu'r polisi presennol ar godi tâl ar ddioddefwyr cam-drin am ddefnyddio llety lloches.
- Datblygu mwy o wasanaethau arbenigol i bobl hŷn a sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu comisiynu.
- Gwella mynediad at gyfiawnder, gan gynnwys gwella mynediad at gymorth cyfreithiol a chymorth

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn adlewyrchu canfyddiadau'r bwrdd crwn a'r adroddiad sy'n awgrymu, yn gyffredinol, nad yw'r tai / llety presennol yng Nghymru'n darparu ar gyfer anghenion pobl hŷn yr effeithir arnynt gan VAWDASV, a chyfeiriwyd at achosion lle'r oedd pobl hŷn wedi gadael lloches i fynd yn ôl i fyw at eu camdriniwr oherwydd eu bod wedi teimlo 'allan o le' yn eu llety.

Er y rhannwyd nifer fach o enghreifftiau lle'r oedd pobl hŷn yn cael eu cam-drin wedi cael cynnig llety arbenigol – yn aml mewn unedau gan gynlluniau tai gofal ychwanegol – ymddengys fod pobl hŷn yn aml yn cael cynnig llety anaddas i'w hanghenion.

Er enghraifft, mae'r ffordd y mae llochesi wedi eu gosod allan yn aml yn anaddas i anghenion gofal a chymorth pobl hŷn a gallai pobl hŷn deimlo'n anghyffyrddus yn cymysgu ag unigolion mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywydau ac sydd efallai'n wynebu problemau nad yw pobl hŷn yn teimlo eu bod yn gallu uniaethu â nhw.

Rhannwyd pryderon penodol hefyd am yr heriau'n ymwneud â sefyllfa ariannol a chael gafael ar fudd-dal tai, a hefyd am y diffyg opsiynau llety addas i ddynion hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Byddai mwy o unedau gwasgaredig gyda chymorth 'cofleidiol' yn cynnig opsiwn mwy priodol i bobl hŷn sydd angen iddynt adael eu cartrefi eu hunain. Mae arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig wedi cynorthwyo rhai ardaloedd i wneud cais am gymorth ariannol i ddarparu unedau gwasgaredig o'r fath.

Rôl Cymdeithasau Tai

Mae ymatebion gan gymdeithasau tai wedi tynnu sylw at sut y maen nhw'n amddiffyn a diogelu pobl hŷn a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth.

Mae gan y rhan fwyaf o gymdeithasau tai bolisïau cam-drin domestig a phrosesau diogelu yn eu lle ac yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff mewn swyddi sy'n wynebu'r cwsmer. Mewn cynlluniau tai, mae wardeniaid a rheolwyr tai fel arfer yn darparu cymorth emosiynol a chyfeirio tenantiaid ymlaen at wasanaethau perthnasol fel timau diogelu lleol, y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a mudiadau Cymorth i Fenywod lleol.

Mae'r cymorth ymarferol i denantiaid yn cynnwys trefnu i drwsio pethau'n gyflym heb orfod talu; cloi drysau a ffenestri; darparu teledu cylch cyfyng a larymau ffenestri a drysau mewn achosion difrifol; cynnig llety arall i denantiaid (dioddefwyr a chamdrinwyr) mewn amgylchiadau penodol; darparu llety diogel; darparu cymorth therapiwtig; a chynnwys y gwasanaethau diogelu, MARAC neu'r heddlu fel bo angen.

Rhannwyd rhai enghreifftiau hefyd o gymorth ychwanegol a roddir gan staff mewn swyddi sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion pobl hŷn, fel y rôl Pennaeth Pobl Hŷn, tîm Gwasanaeth Pobl Hŷn, a gwasanaeth cymorth tenantiaeth mewnol i bobl dros 55 oed. Dywedodd un gymdeithas dai eu bod yn cyflogi swyddogion achosion cam-drin domestig sy'n gweithio yn eu tîm diogelu cymunedol ac sy'n derbyn hyfforddiant perthnasol am sut i gynorthwyo a chefnogi pobl hŷn.

Tynnodd gymdeithasau tai sylw hefyd at nifer o brosesau a chynlluniau eraill sy'n cael eu rhedeg ochr yn ochr â pholisïau cam-drin domestig a phrosesau diogelu i amddiffyn a chynorthwyo pobl sy'n cael eu cam-drin neu'n wynebu risg o hyn:

Cause for Concern (Charter Housing) – lle mae unrhyw aelod o staff, a fu'n dyst i neu a glywodd unrhyw beth oedd yn eu poeni o safbwynt diogelu, yn gallu codi pryder drwy broses atgyfeirio, gyda phanel yn cyfarfod yn rheolaidd i benderfynu ar-y-cyd sut i ymateb i'r atgyfeiriadau hyn. Amcangyfrifwyd bod o leiaf un achos o gam-drin domestig neu ariannol yn cael ei atgyfeirio pob dydd ar hyn o bryd.

Strive (Cymdeithas Dai Linc) – yn rhoi gwybodaeth, cyngor a thawelwch meddwl i denantiaid gan adnabod unrhyw rwydweithiau cymorth a allai fod ar gael iddynt. Yn dilyn cwblhau asesiad risg DASH (Cam-drin Domestig, Stelcian, Harasio a Thrais Ar Sail Anrhydedd), mae cynllun gweithredu'n cael ei gytuno â'r unigolyn dan sylw i wella eu diogelwch personol a'u cyflwyno i wasanaethau cymorth a llety arall lle bo angen. Cyfeirir achosion risg uchel at wasanaethau MARAC ac IDVA, gyda'r gweithwyr achos yn cyfrannu at gyfarfodydd MARAC. Mae'r gweithiwr achos yn gweithio gyda'r dioddefwr ar gwblhau'r cynllun gweithredu a sicrhau bod sylw wedi'i

roi i bob mater tenantiaeth. Wrth adael, cynhelir trafodaethau ag unigolion i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod sut i ail-gysylltu â'r gwasanaeth os bydd angen yn y dyfodol.

Free from Fear – daeth nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol yn ardal Gwent at ei gilydd i sefydlu Free From Fear Cymru, sy'n adnabod ymarfer gorau ac arloesi wrth ymateb i unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig ac a gynhyrchodd becyn adnoddau at ddefnydd staff tai gweithredol. Mae'r sefydliadau a'r mudiadau sy'n rhan o'r fenter wedi ymrwymo i sefydlu porth fel bod pobl sy'n cael eu cam-drin yn gallu cael gafael ar gymorth i fod yn fwy annibynnol, yn fwy gwydn ac i fyw bywyd heb fod ag ofn.

Er bod y rhaglenni hyn yn cynyddu'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin, mae'n bwysig nodi eu bod wedi eu hanelu at bobl o bob oed yn hytrach na bod wedi eu teilwrio i anghenion tenantiaid hŷn, a'u bod hefyd wedi eu cyfyngu i ardaloedd / mudiadau penodol.

Asesu risg

Roedd y rhai wnaeth ymateb yn teimlo'n gryf nad yw DASH, yr offeryn asesu risg presennol i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol, yn briodol i oed ac nad yw'n ymateb i'r newid mewn angen am gymorth cam-drin domestig ar wahanol gyfnodau ym mywyd unigolion.

Nid yw'r asesiad yn ystyried y risg a gyflwynir gan aelodau o deulu ac mae saith allan o'r 24 cwestiwn yn amherthnasol i bobl hŷn, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gyrraedd y trothwy risg uchel ar gyfer cael eu cyfeirio at MARAC. Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion, bod unigolion yn cael eu cyfeirio at MARAC ar sail barn broffesiynol yn hytrach na sgôr yr asesiad.

Er bod asesiad risg DASH wedi'i addasu ar gyfer pobl hŷn y gall ymarferwyr ei ddefnyddio, mae staff MARAC weithiau'n gyndyn o dderbyn y sgoriau hyn. Mae hyn yn awgrymu bod rhai asiantaethau'n gyndyn o ystyried yr asesiad risg wedi'i addasu, a allai arwain at ddiffyg ffocws a diffyg ymateb i'r ffactorau risg sy'n benodol berthnasol i bobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV.

Ymarfer Da: Prosiect Owls – Gwasanaeth Cam-Drin Domestig Gorllewin Cymru

Sefydlwyd y prosiect OWLS oherwydd pryderon nad oedd yr adnoddau rheoli risg presennol yn casglu profiadau pobl hŷn yn iawn ac nad oedd y modelau gwasanaeth yn ddigon ymatebol neu hyblyg i ateb anghenion pobl hŷn yn aml. Nod y prosiect yw darparu'r canlyniadau canlynol:

- Gwasanaethau mwy effeithiol i fenywod hŷn sy'n profi cam-drin domestig
- Gwella gwybodaeth ryngasiantaethol am sut i weithio gyda menywod hŷn sy'n profi cam-drin domestig
- Dealltwriaeth well o gam-drin domestig a'i effeithiau

Mae'r prosiect wedi'i ategu gan gyfres o egwyddorion i sicrhau bod digon o amser ar gael i sefydlu perthynas gyda pherson hŷn a gweithio gyda nhw i ddeall ac ymateb i anghenion y

person fel unigolyn; cymorth person-ganolog drwy wrando a deall; a thrwy ddefnyddio staff sydd â gwybodaeth a phrofiad mwy manwl o brofiadau pobl hŷn o gam-drin domestig.

Mae'r prosiect wedi darparu'r canlynol er mwyn cyflawni ei ganlyniadau:

- Gwaith achos yn seiliedig ar gwrdd ag anghenion holistig menywod hŷn o ran gwasanaethau a chymorth yn y gymuned;
- Datblygu cynllun gwirfoddolwyr i helpu i gyfeirio dioddefwyr at fudiadau cymorth;
- Datblygu Rhaglen Adferiad bwrpasol mewn partneriaeth â phobl hŷn i godi ymwybyddiaeth a magu hyder mewn goroeswyr i greu cysylltiadau yn eu cymunedau eu hunain;
- Sefydlu cynllun cyfeillio a chymorth gan gyd-ddioddefwyr;
- Datblygu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth sydd wedi'i gyflwyno i fudiadau partner; a
- Gweithio gyda mudiadau cymunedol i ddatblygu llwybrau i gyfeirio pobl at wybodaeth a chymorth

Hyfforddiant ac achredu

Dywedodd ymarferwyr nad oedd yr hyfforddiant presennol i fynd i'r afael â VAWDASV – gan gynnwys hyfforddiant Gofyn a Gweithredu a'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol – yn ystyried anghenion a phrofiadau penodol pobl hŷn, sy'n arwain at fylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith staff allweddol, fel y disgrifiwn uchod.

Er enghraifft, pan fydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu'n cael ei gyflwyno i ymarferwyr diogelu a staff gwasanaethau oedolion / gofal, mae'r cyfranogwyr yn aml yn gofyn nifer o gwestiynau am bynciau'n ymwneud â phobl hŷn, fel dementia, anabledd, galluedd meddyliol a swyddi gofalwyr, oherwydd nid yw'r hyfforddiant yn cynnwys y pethau hyn.

Hefyd, dim ond i awdurdodau a ddiffinnir gan y Ddeddf VAWDASV y mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn berthnasol. Felly nid yw gweithwyr gwasanaethau cymorth cyhoeddus a thrydydd sector ehangach – sydd angen mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth arnynt o faterion VAWDASV sy'n benodol i bobl hŷn er mwyn gallu ymateb yn addas i'w hanghenion – gan gynnwys plismyn, staff cymdeithasau tai a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol – yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Hyfforddiant, er y manteision posib y gallai'r hyfforddiant hwn ei roi i'w gwaith.

O ganlyniad mae rhai cymdeithasau tai, er enghraifft, wedi darparu hyfforddiant o Loegr i'w staff ac efallai na fydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys digon o fanylion am gyd-destun Cymru o ran polisi, deddfwriaeth a gwasanaethau.

Siaradodd ymarferwyr o wasanaethau cam-drin domestig a cham-drin rhywiol hefyd am fylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n gallu effeithio ar brofiadau pobl hŷn sy'n byw gyda dementia neu fathau eraill o nam gwybyddol. Yn ôl yr ymarferwyr, mae tystiolaeth i awgrymu nad yw hanesion datgelu cam-drin pobl hŷn yn cael eu cymryd o ddifrif os oes ganddynt

arwyddion o ddementia neu nam gwybyddol a bod y ffocws yn yr achosion hyn yn tueddu i fod ar anghenion iechyd yr unigolyn yn hytrach na pharodrwydd i adnabod ac ymateb i honiadau o gam-drin.

Roedden nhw hefyd yn dweud os oedd anghenion person hŷn wedi eu cymhlethu yn nhermau iechyd a datgelu cam-drin, nad yw'r gwasanaethau'n ymateb yn briodol bob tro fel bo'r person hŷn yna'n teimlo'n ynysig a diobaith. Awgrymwyd fod hyn efallai'n digwydd oherwydd nad yw ymarferwyr yn ystyried bod ganddynt y sgiliau i ymateb yn effeithiol i bobl hŷn sy'n cyflwyno gydag anghenion cymhleth.

Er bod cydfodolaeth dementia (neu anghenion cymhleth eraill) a cham-drin domestig yn cyflwyno heriau ychwanegol i gynorthwyo unigolyn, mae'r Prosiect Dewis wedi dangos bod mabwysiadu dull person-ganolog a holistig, wedi'i ddarparu gan ymarferwyr medrus, gwybodus a phrofiadol, yn gallu helpu i sicrhau y gellir delio'n fwy effeithiol ag achosion fel hyn.

Hyrwyddo a chyhoeddusrwydd

Dywedodd y goroeswyr cam-drin a gafodd eu holi nad oeddent yn ymwybodol o'r mathau o wasanaethau a allai eu helpu hyd nes i rywun roi gwybodaeth iddynt am yr hyn oedd ar gael. Mae hyn yn awgrymu nad yw gwybodaeth am wasanaethau VAWDASV yn ddigon gweladwy neu hygyrch mewn cymunedau.

Gall hyn gael ei waethygu gan y ffaith mai pur anaml y mae deunyddiau hyrwyddo ac ymgyrchoedd cam-drin yn rhoi sylw na'n cynnwys pobl hŷn yn y lluniau neu'r iaith a ddefnyddir, sy'n aml yn rhoi'r argraff bod y gwasanaethau wedi eu targedu at bobl iau, problem y cyfeiriodd sawl un wnaeth ymateb ati.

Awgrymodd ymarferwyr hefyd nad yw pobl hŷn bob amser yn uniaethu â'r math o iaith a ddefnyddir wrth siarad am VAWDASV a gwasanaethau cymorth, a allai fod yn rhwystr pellach i godi ymwybyddiaeth a chael mynediad at gymorth.

Hefyd, dywedodd nifer o'r rhai wnaeth ymateb mai anaml y mae'r naratif cyhoeddus ehangach am VAWDASV yn cynnwys profiadau pobl hŷn a bod y cyfryngau'n aml yn gyndyn o siarad am a chodi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd penodol y gall VAWDASV effeithio ar bobl hŷn.

Data

Fel y nodwn uchod, mae diffyg data cywir a chynhwysfawr am bobl hŷn a VAWDASV, sy'n destun pryder, ac mae'r data sydd ar gael yn aml yn anghyson ac anghytûn. Mae hyn yn golygu bod profiadau pobl hŷn mewn perygl o fod yn 'anweledig' pan fo'n dod at lunio polisi a datblygu gwasanaethau.

Awgryma ddadansoddiad o'r Adroddiadau Diogelu Rhanbarthol Blynyddol fod y trefniadau i ddiogelu oedolion mewn perygl yn parhau i fod yn llai datblygedig o'i gymharu â threfniadau i ddiogelu plant, ac mae'n glir hefyd nad oes digon o ddata a gwybodaeth am brofiadau pobl hŷn o VAWDASV yng Nghymru.

Yn ôl adroddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol am 2019-20[34], mae peth cynnydd wedi'i wneud gyda diwygio Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol i gynnwys gwybodaeth am gam-drin pobl hŷn drwy gasglu data seiliedig ar grwpiau oed.

Fodd bynnag, yn ôl y rhai wnaeth ymateb, os na fydd data gwell ar gael gallai tybiaethau anghywir gael eu gwneud am brofiadau pobl hŷn o gael eu cam-drin, a'r effaith arnynt, gan arwain at ddiffyg dealltwriaeth o anghenion y bobl hyn ynghyd â gwasanaethau a chymorth annigonol i'r pwrpas.

Enghreifftiau o ymarfer da: Elfennau cyffredin

Mae nifer o elfennau cyffredin sydd wedi cynorthwyo i ddarparu'r enghreifftiau ymarfer da a ddisgrifir uchod gan y Prosiect Dewis ac OWLS:

- Cyd-gynhyrchu'r model gwasanaeth gyda phobl hŷn
- Eiriolaeth ddiamwys drwy sefydlu ymddiriedaeth a buddsoddi yn y berthynas drwy fod ar eu hochr ac wrth eu hochr am gyn hired ag y bo angen
- Ymgysylltu hwylus
- Galluogi a grymuso drwy wrando, bod yn berson-ganolog ac ystyried opsiynau er mwyn cynorthwyo unigolion i ganfod eu hatebion eu hunain
- Addysgu a darparu gwybodaeth berthnasol
- Rhoi cymorth holistig gyda help gan ddarparwyr gwasanaeth eraill o wahanol asiantaethau, yn ogystal â chan rai sy'n byw yn y gymuned sy'n gallu cynorthwyo'r unigolyn
- Sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal, gan gynnwys rhai sy'n rhan o rwydwaith yr unigolyn
- Sicrhau gweithlu medrus sy'n hyddysg ym mhrofiadau pobl hŷn o gam-drin domestig.

Mae'r ddau fodel uchod yn eiriol bod angen cryfhau gallu, gwybodaeth ac arbenigedd ymarferwyr i roi cymorth wedi'i deilwrio i bobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig.

Rôl y gwasanaethau iechyd

Mae'n bwysig cydnabod rôl greiddiol y gwasanaethau iechyd mewn adnabod cam-drin posib ac mewn rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â gwasanaethau a chymorth.

Yn ôl y wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fyrddau iechyd yng Nghymru, a gafodd ei adolygu fel rhan o'r ymchwil, mae pob bwrdd iechyd yn cyfrannu at ariannu gwasanaethau cam-drin a thrais rhywiol yn eu hardaloedd, gan hefyd nodi nifer o raglenni eraill mewn gwahanol ardaloedd, fel:

- Cyflogi Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA)
- Cyflogi Nyrs Cam-drin Domestig Arbenigol
- Hyfforddiant i staff a chodi ymwybyddiaeth
- Llwybrau atgyfeirio penodol pan fydd cam-drin domestig neu rywiol yn cael ei ddatgelu

Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhaglenni hyn yn aml wedi eu cyfyngu i un ardal bwrdd iechyd a bod byrddau iechyd unigol yn aml ar wahanol bwyntiau yn y gwaith o weithredu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf VAWDAS.

Un rhaglen a gyflwynwyd gan nifer o fyrddau iechyd yw IRIS, sydd wedi'i darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ers 2015, a hefyd wedi'i pheilota'n ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd yn ystyried gweithredu'r rhaglen.

Rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio ar gyfer cam-drin a thrais domestig i feddygfeydd yw IRIS. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor o ddarparu hyfforddiant ac addysg barhaus i staff a thimau clinigol yn y sector gofal iechyd sylfaenol, holi clinigol a llwybr atgyfeirio i dderbyn gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol.

Rhaglen gydweithredol yw hi rhwng sefydliadau cam-drin domestig arbenigol yn y sector gofal sylfaenol a'r trydydd sector ac mae'n cynnwys cyflogi gweithiwr Cam-drin Domestig arbenigol, a elwir yn Eiriol-Addysgwr, mewn meddygfeydd i weithio ochr yn ochr ag Arweinydd Clinigol.

Ers gweithredu IRIS, mae nifer yr achosion a atgyfeiriwyd ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i fyny o 315 yn 205 i 810 yn 2020, a nifer yr achosion a atgyfeiriwyd ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf i fyny o 281 i 591 dros yr un cyfnod.

Casglodd adroddiad gwerthuso[35] fod IRIS yn cyrraedd grŵp demograffeg hŷn o fenywod sydd fel arfer wedi eu tan-gynrychioli mewn gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol. Un o'r nodweddion da am IRIS yw eu bod yn gallu cyrraedd grwpiau o oroeswyr a fyddai fel arall yn anweledig. Awgryma'r dystiolaeth fod IRIS yn ymyriad cynaliadwy a bod y rhaglen yn cyrraedd mwy o bobl hŷn nag a fyddai'n cael eu gweld gan y gwasanaethau arbenigol, yn bennaf oherwydd bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o ddatgelu cam-drin i'w meddyg teulu y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth a pharch gyda nhw.

Effaith Covid-19 yng Nghymru

Er bod llawer o'r materion y cyfeiriwn atynt uchod yn adlewyrchu problemau hirsefydlog, mae pandemig Covid-19 wedi creu pwysau ychwanegol i gefnogi pobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV.

Er bod rhai gwasanaethau VAWDASV arbenigol wedi parhau i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb drwy gydol y pandemig (lle'r oedd hyn yn hanfodol i ddiogelwch y bobl hŷn neu am resymau eraill), roedd hefyd angen darparu gwasanaethau cymorth dros y ffôn neu ar-lein gan olygu bod mudiadau wedi darparu cyfarpar Technoleg Gwybodaeth i bobl gael derbyn gwasanaethau mewn rhai achosion.

Er y dywedodd goroeswyr VAWDASV hŷn eu bod yn gwerthfawrogi'r dulliau hyblyg o ddarparu gwasanaethau, roedd yn well ganddynt gyswllt wyneb yn wyneb meddent.

Cyfeiriodd ymarferwyr hefyd at bwysigrwydd a gwerth delio gyda chleientiaid wyneb yn wyneb er mwyn gallu creu cytgord ac asesu drostynt eu hunain a oedd iechyd neu les y person wedi dirywio.

Cam-drin pobl hŷn yn ariannol ac economaidd

Mae deddfwriaeth ar lefel Cymru a'r DU yn diffinio cam-drin ariannol fel math o gam-drin sy'n cynnwys:

- lle mae eich arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn;
- lle'r ydych yn cael eich twyllo;
- lle cewch eich rhoi dan bwysau ynglŷn â'ch arian neu eiddo arall; a
- lle mae eich arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio.[36, 37]

Fel y pwysleisia Age UK, gall unrhyw un gam-drin rhywun yn ariannol – partner, perthynas neu droseddwr.[38] Gall cam-drin ariannol gynnwys:

- Lle mae perthynas, ffrind neu weithiwr gofal yn rhoi rhywun dan bwysau i roi benthyg neu roi arian iddynt (neu ofyn yn aml am symiau bach o arian).
- Rhoi pwysau ar / bygwth rhywun i drosglwyddo tŷ neu eiddo iddynt, neu i newid ewyllys.
- Lle mae aelodau o deulu'n symud i gartref rhywun heb eu caniatâd a heb gytuno ymlaen llaw sut y bwriedir rhannu'r costau.
- Cymryd gofal o arian a / neu fudd-daliadau lles rhywun a pheidio â rhoi'r holl arian iddynt wedyn (neu atal rhywun rhag cael gafael ar eu harian).
- Cymryd arian neu ddefnyddio cerdyn credyd / debyd heb ganiatâd.
- Twyll neu sgâm ariannol.
- Trefnu llai o ofal nag y bo'i angen ar berson er mwyn arbed arian a chael mwy o etifeddiaeth.
- Gwrthod cymorth i ofalu am a / neu fonitro materion ariannol.
- Gwrthod cymorth i dderbyn budd-daliadau.
- Ecsbloetio arian neu asedau person, e.e. defnyddio eu car heb ganiatâd.
- •Camddefnyddio pwerau atwrnai neu fel dirprwy, penodai neu awdurdod cyfreithiol arall.
- Masnachwyr diegwyddor – e.e. gwneud gwaith trwsio diangen, am grocbris neu beidio â gwneud gwaith trwsio wedi'i gytuno, neu waith trwsio gwael[39, 40]

Mae nifer o arwyddion a allai awgrymu fod person hŷn efallai'n cael eu cam-drin yn ariannol.[41] Maen nhw'n cynnwys arian sylweddol yn cael ei godi'n ddiesboniad o gyfrif banc y person hŷn, cynnwys enwau ychwanegol ar eu cyfrif banc neu lofnodion ar sieciau nad ydynt yn debyg i lofnod y person hŷn, neu sieciau'n cael eu llofnodi pan fo'r person hŷn yn cael trafferth ysgrifennu.

Gall arwyddion eraill gynnwys newidiadau sydyn i ewyllys person hŷn, asedau'n cael eu trosglwyddo'n ddiesboniad i aelod o'r teulu neu rywun o'r tu allan i'r teulu, camddefnyddio pŵer atwrnai, arian neu eitemau gwerthfawr yn diflannu, neu filiau heb eu talu. Gallai ynysu person hŷn yn fwriadol oddi wrth deulu a ffrindiau hefyd fod yn arwydd bod cam-drin ariannol yn digwydd.

Yn fwy diweddar, cafwyd y cysyniad o gam-drin economaidd sy'n ddiffiniad ehangach o gam-drin ariannol a allai gyfyngu mynediad at adnoddau hanfodol fel bwyd, dillad neu gludiant ac atal y modd i wella statws economaidd. Fe'i disgrifiwyd fel math cyffredin o gam-drin domestig lle mae'r camdriniwr yn cyfyngu ar allu'r person i gael gafael ar, defnyddio a chadw arian neu adnoddau economaidd eraill.

Mae'r elusen Goroesi Cam-drin Economaidd (Surviving Economic Abuse) yn gwahaniaethu rhwng cam-drin ariannol ac economaidd a bod y naill yn ymwneud â rheoli, ecsbloetio neu danseilio sefyllfa ariannol neu arian rhywun, a'r llall yn cyfeirio at adnoddau economaidd ehangach fel bwyd, dillad, arian, cludiant a llety.[42]

Dengys tystiolaeth fod cam-drin ariannol ac economaidd yn aml yn digwydd ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin. Er enghraifft, dangosodd ymchwil fod pobl sy'n cael eu hatal gan gamdriniwr rhag gofalu am eu harian eu hunain yn aml mewn perygl o fathau eraill o gam-drin treisgar, rhywiol a seicolegol.[43] Dangosodd ymchwil arall fod 85% o bobl a brofodd gam-drin economaidd hefyd wedi dioddef mathau eraill o gam-drin domestig.[44] Yn ôl y Rhwydwaith Cenedlaethol ar Atal Trais Domestig, mae cam-drin ariannol yn digwydd mewn 98% o achosion trais domestig.[45]

Yn ôl Cymorth i Fenywod, pur anaml y mae cam-drin ariannol yn digwydd ar ei ben ei hun oherwydd mae'n agwedd ar reoli dichellgar sy'n cyfyngu ar ryddid y dioddefwr i weithredu a dewis, ar y pryd ac yn y dyfodol.[46]

Twyll a sgamio

Yn ogystal â'r mathau o gam-drin ariannol a ddisgrifir uchod, mae pobl hŷn hefyd yn cael eu targedu'n aml gan ystod eang o gynlluniau twyll a sgamio. Mae troseddwyr yn aml yn defnyddio dulliau mwyfwy soffistigedig[47] i dricio pobl i brynu nwydd neu wasanaeth nad ydynt yn bodoli, neu i rannu gwybodaeth bersonol, gan dargedu pobl drwy'r post, dros y ffôn, e-bost ac ar-lein.

Dyma rai enghreifftiau o gynlluniau twyll a sgamio ariannol:

- Galwadau ffôn, negeseuon testun ac e-byst yn cogio bod yn fanc, adran llywodraeth, cwmni neu sefydliad arall, yn gofyn am dâl neu wybodaeth bersonol
- Sgamiau buddsoddi / cam-werthu cynhyrchion ariannol
- Sgamiau siopa ar-lein lle archebir pethau sydd byth yn cyrraedd
- Rafflau gwobrau ffug
- Elusennau ffug
- Sgamiau rhamant

Gall effaith twyll a sgamiau ariannol ar bobl hŷn fod yn ofnadwy: ar wahân i'r effaith ariannol, mae pobl hŷn sydd wedi cael eu twyllo a'u sgamio'n ariannol yn aml yn dioddef o iselder, yn cilio o gwmni eraill ac ynysu eu hunain o deulu a ffrindiau, ac mae eu hiechyd meddwl a chorfforol yn

dirywio. Mae rhai sy'n cael eu twyllo yn eu cartrefi eu hunain hefyd 2.5 gwaith yn fwy tebygol o fynd i gartref gofal preswyl neu o farw o fewn blwyddyn i gael eu sgamio.[48]

Pa mor gyffredin yw hyn

Yn ôl ymchwil gan Sefydliad Iechyd y Byd, mae cam-drin ariannol yn effeithio ar 6.8% o bobl dros 60 oed drwy'r byd felly dyma'r ail fath mwyaf cyffredin o gam-drin.[49]

Ar sail tystiolaeth ar lefel y DU, mae Age UK yn amcangyfrif bod tua 130,000 o bobl dros 65 oed (rhwng 1-2%) wedi neu yn cael eu cam-drin yn ariannol yn y gymuned.[50] Ar gyfer Cymru, byddai'r ffigur tua 6,000. Fodd bynnag, roedden nhw'n pwysleisio bod y ffigur hwn yn debygol o fod yn llawer uwch mewn realiti oherwydd bod llawer o achosion nad ydynt yn cael eu hadrodd.

Yn ôl ymchwil i gam-drin economaidd, dywedodd 16% o oedolion eu bod wedi profi cam-drin economaidd, gyda 39% wedi cael profiad o ymddygiad i awgrymu eu bod wedi profi cam-drin economaidd, ond nad oeddent wedi'i adnabod felly.[51] Roedd yr ymchwil hefyd wedi canfod na ddywedodd tua thraean o'r bobl a brofodd gam-drin economaidd wrth neb am eu profiad a bod mwyafrif helaeth - 85% - o'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn economaidd hefyd yn dioddef mathau eraill o gam-drin domestig.

O ran sgamiau ariannol a thwyll, yn ôl tystiolaeth gan Safonau Masnach Cenedlaethol, mae dros hanner y bobl dros 65 oed wedi cael eu targedu gan sgamwyr.[52] Mae hyn yn adlewyrchu'r ymchwil a wnaed gan Age UK wnaeth ganfod fod dros 5 miliwn o bobl dros 65 oed yn y DU yn credu y cawsant eu targedu gan sgamwyr.[53] Yn ôl yr ymchwil, roedd tua 12% o'r rhai a dargedwyd wedi ymateb sy'n golygu felly bod tua hanner miliwn o bobl 65+ oed – dros 23,000 yng Nghymru – wedi disgyn am sgamiau ariannol neu dwyll. Oherwydd yr amcangyfrifir mai dim ond tua 5% o achosion twyll neu sgamio sy'n cael eu hadrodd fel troseddau, mae hefyd yn bwysig nodi y gallai'r gwir ffigurau fod yn llawer uwch nag y mae'r ymchwil yn ei awgrymu.

Ffactorau risg

Fel gyda mathau eraill o gam-drin, mae nifer o ffactorau sy'n gallu cynyddu'r risg o gam-drin ariannol a / neu dwyll a sgamiau.

Er enghraifft, wrth i bobl fynd yn hŷn maen nhw'n gallu mynd i ddibynnu mwy ar eraill i ofalu am eu harian oherwydd nad ydynt yn gallu mynd o gwmpas, mae angen gofal a chymorth arnynt, neu oherwydd dementia neu fathau eraill o nam gwybyddol, sy'n golygu eu bod yn fwy agored i gael eu cam-drin. Gall aelodau o'r teulu hefyd gamddefnyddio eu gwybodaeth a'u cysylltiad agos i gam-drin rhieni neu aelodau eraill o'r teulu'n ariannol. Yn ôl ymchwil gan Age UK, mae 70% o gam-drin pobl hŷn yn ariannol yn cael ei wneud gan aelodau o'r teulu[54], gydag adroddiadau'n awgrymu bod hyn yn digwydd yn amlach o hyd.[55]

O ran twyll a sgamiau, dengys y dystiolaeth fod pobl hŷn yn aml yn cael eu targedu'n fwriadol dro ar ôl tro gan sgamwyr[56], ac mai oed cyfartalog rhywun sy'n disgyn am sgâm drwy'r post yw 75.[57] Mae nifer o ffactorau eraill hefyd yn gallu cynyddu'r risg i bobl hŷn:

- Os oes ganddynt incwm parod neu asedau
- Byw gyda dementia neu fath arall o nam gwybyddol
- Byw eu hunain
- Wedi eu heithrio'n ddigidol[58]

Mae diffyg dealltwriaeth o gam-drin ariannol yn y sector gwasanaethau ariannol a chan asiantaethau eraill, fel nad yw pobl hŷn yn derbyn y cyngor a'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt, hefyd wedi'i gydnabod gan arwain at gyflwyno rhaglenni a phrosiectau i gynorthwyo pobl sy'n dioddef cam-drin ariannol yn fwy effeithiol.[59, 60]

Mae hefyd yn bwysig ystyried y rôl y gall y system gyfiawnder ei chwarae gyda phrofiadau pobl hŷn: nid yw'n ymddangos y gall y system gyfiawnder wneud llawer o gwbl i atal camdrinwyr, o ystyried y nifer isel sy'n cael eu herlyn a'u cael yn euog o droseddau yn erbyn pobl hŷn.

Canfyddiadau o ymchwil gyda rhanddeiliaid

Methodolegau ymchwil

Er mwyn casglu gwybodaeth am y mathau o wasanaeth a chymorth sydd ar gael i bobl hŷn sydd efallai'n cael eu cam-drin yn ariannol, a hefyd am y problemau a'r heriau y gall pobl ddod ar eu traws wrth geisio cael gafael ar gymorth, dosbarthwyd holiaduron i adrannau Safonau Masnach, mudiadau Cyngor ar Bopeth ac i gymdeithasau tai ar draws Cymru. Cynhaliwyd hefyd drafodaethau un-i-un gyda staff o dimau Safonau Masnach a Chyngor ar Bopeth, a gydag eiriolwyr pobl hŷn.[61]

Cyflwynir isod y prif ganfyddiadau ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd.

Cael gafael ar gymorth a chefnogaeth

Fel y mae'r ymchwil ehangach y cyfeiriwn ati uchod yn ei ddangos, mae diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin ariannol a sut y gall effeithio ar bobl hŷn, gan gynnwys ymhlith pobl hŷn eu hunain. Os nad yw unigolyn yn gallu gweld eu bod yn cael eu cam-drin yn ariannol, ni fydd y person yn ystyried gofyn am help a chefnogaeth.

Mae Safonau Masnach a chymdeithasau tai wedi cydnabod y broblem hon gan rannu manylion am y gwaith a wneir ganddynt i godi ymwybyddiaeth o gam-drin ariannol. Mae'r gwaith yn cynnwys cynnal sesiynau hyfforddiant i bobl hŷn ar gynlluniau twyll, sgamiau a masnachwyr diegwyddor a dosbarthu negeseuon a gwybodaeth allweddol drwy amryw o wahanol sianeli i sicrhau bod pobl yn gwybod beth i gadw llygad allan amdano a ble i fynd am help.

Rhannwyd manylion hefyd am sut y maen nhw'n gweithio gydag unigolion i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth pan fo'i angen arnynt.

Er enghraifft, mae unrhyw achosion sy'n cael eu hadnabod drwy waith allgymorth gan Safonau Masnach sy'n dangos tystiolaeth o gam-drin ariannol neu fod y person yn fregus, yn cael eu cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol. Ymchwilir hefyd i achosion gydag elfen droseddol a, lle mae hynny'n briodol, mae'r camdrinwyr yn cael eu herlyn gan ofyn am iawndal i'r dioddefwr. Roedden nhw hefyd yn pwysleisio bod staff yn ymweld ag unigolion oedd wedi ymateb i sgam neu gynllun twyll i egluro sut y gallent amddiffyn eu hunain yn y dyfodol, ac i gyfeirio pobl ymlaen at gymorth ac asiantaethau perthnasol.

Roedd ymateb y cymdeithasau tai'n cynnwys enghreifftiau o sut y mae staff yn helpu tenantiaid sydd efallai'n cael eu cam-drin yn ariannol, drwy sefydlu perthynas ac ymddiriedaeth, gan hefyd gyfeirio at eu gwaith gydag asiantaethau eraill, yn cynnwys staff MARAC, i atgyfeirio unigolion a rhannu gwybodaeth fesul achos. Rhannwyd enghreifftiau hefyd ganddynt o gymorth a roddwyd drwy dimau cyngor ariannol / cynhwysiant ariannol mewnol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r cymorth hwn wedi'i deilwrio i bobl hŷn ac nad yw'n ymddangos bod unrhyw ddull cyffredin o roi cymorth i bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin ariannol.

Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi creu heriau ychwanegol, yn enwedig oherwydd y cyfyngu difrifol ar unrhyw gyfle i roi cymorth wyneb yn wyneb, a rhannwyd rhai enghreifftiau o waith ychwanegol i amddiffyn pobl, er enghraifft drwy ymarferion diogelu ychwanegol gydag unigolion a allai fod yn arbennig o fregus.

Ymarfer Da: Delta CONNECT

Nod rhaglen Delta CONNECT, a sefydlwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, yw adnabod pobl sydd efallai wedi dioddef cam-drin ariannol a thwyll, a'u cyfeirio'n ddiymdroi at yr asiantaeth berthnasol.

Mae'r cymorth hwn yn cael ei roi gan Swyddogion Lles Cymunedol CONNECT sydd wedi eu hyfforddi adnabod arwyddion o dwyll a cham-drin ariannol, a hefyd i adnabod ffactorau risg eraill fel unigrwydd, dirywiad neu nam gwybyddol, problemau ariannol neu bersonol. Lle mae'r mathau hyn o broblemau'n cael eu hadnabod, rhoddir sylw iddynt.

Mae'r rhaglen wedi cael ei hadnabod fel un genedlaethol flaenllaw gan Lywodraeth Cymru gan ddenu diddordeb ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Pobl hŷn sy'n gyndyn o adrodd cam-drin ariannol

Hyd yn oed os yw person hŷn yn deall eu bod yn cael eu cam-drin yn ariannol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod er hynny'n gyndyn weithiau o ofyn am help neu o wneud dim am y peth, am nifer o resymau.

Er enghraifft, dywedodd nifer o eiriolwyr wrthym fod llawer o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn ariannol yn gyndyn o wneud dim am y peth – er enghraifft cysylltu â'r tîm diogelu neu'r heddlu – naill ai oherwydd nad ydynt eisiau cydnabod ei fod yn digwydd neu oherwydd bod arnynt ofn colli cymorth neu gwmni'r camdriniwr.

Adlewyrchwyd hyn yn y dystiolaeth gan Gyngor ar Bopeth a ddywedodd fod dioddefwyr weithiau'n gyndyn, ochr yn ochr ag ofni colli cymorth y camdriniwr, o ofyn am help oherwydd cywilydd neu embaras neu nad oeddent yn teimlo bod ymddygiad y camdriniwr yn fygythiad uniongyrchol.

Rhwystrau systemig ehangach

Roedd tystiolaeth a rannwyd o gam-drin ariannol hefyd yn nodi sut y gall systemau a gwasanaethau weithiau greu rhwystrau ychwanegol i bobl hŷn gyda derbyn cymorth.

Er enghraifft, awgryma'r dystiolaeth gan Safonau Masnach fod yr iaith a ddefnyddir yn gallu effeithio ar sut y mae pryder yn cael ei drin, gan effeithio ar y canlyniad i berson hŷn: mae rhywbeth a ddisgrifir fel sgam yn tueddu i gael ei gyfeirio at y Safonau Masnach, cam-drin / ecsbloetio ariannol at y gwasanaethau cymdeithasol, a thwyll at yr heddlu.

Roedd yr eiriolwyr hefyd yn nodi ei bod weithiau'n anodd cael timau diogelu'r gwasanaethau cymdeithasol i fod yn rhan o achosion lle mae'r unigolyn sy'n cael eu cam-drin yn gwrthod rhoi caniatâd a naill ai bod y dystiolaeth yn brin neu lle ystyrir nad yw lefel y cam-drin ariannol yn arbennig o ddrwg. Adlewyrchwyd hyn yn y dystiolaeth gan Gyngor ar Bopeth a ddisgrifiodd y trafferthion gyda chynnwys timau diogelu heb ganiatâd yr unigolyn oni bai fod risg sylweddol iddynt neu os nad oes ganddynt alluedd meddyliol.

Roedd y dystiolaeth hefyd yn nodi cyfyngiadau gyda'r data sy'n cael ei gasglu am brofiadau pobl hŷn o gam-drin ariannol. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio nad yw pob awdurdod lleol yn casglu data ar y nifer a'r math o achosion cam-drin ariannol yr ymdrinnir â nhw'n flynyddol. O'r rhai sydd, mae rhai'n rhannu'r ystadegau yn ôl oed, rhywedd a / neu darddiad ethnig, ac eraill ddim.

Er enghraifft, er bod data wedi'i gasglu gan gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg (sy'n gweithio gyda'i gilydd o dan faner y Gwasanaethau Rheoliadol Wedi eu Rhannu) yn gallu adnabod cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin ariannol a sgamiau, nid oedd ystadegau ar gael ar faint o bobl dros 60 oed a effeithiwyd.

Fel y nodwn uchod, heb ddata trylwyr i roi darlun llawn o brofiadau pobl hŷn, mae'n anodd deall pa wasanaethau a chymorth sydd ei angen arnynt a dyrannu adnoddau tuag at hynny

Ymarfer Da: Y Cynllun Diogelu Rhag Ecsbloetio Ariannol (Fess), Sir Gaerfyrddin

"Mae diogelu'n fusnes pawb"

Rhwydwaith diogelu amlasiantaethol yw'r prosiect FESS a sefydlwyd gan dîm Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin i ganfod ac atal ecsbloetio pobl fregus yn ariannol. Nod y prosiect yw cynorthwyo unigolion sy'n wynebu risg i dderbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, annog ymyrryd yn gynnar, hyrwyddo dulliau atal a chefnogi gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys elfen o ymchwil ffurfiol gyda Phrifysgol Caerdydd, gyda 36 o awdurdodau lleol eraill hefyd yn cymryd rhan drwy rwydwaith traws-DU. Mae data'n cael ei fewnbynnu drwy arolwg i roi gwybodaeth am unrhyw broblemau gweithredol i dimau Safonau Masnach, er mwyn gwella gwasanaethau a hwyluso integreiddio a chymorth gwell.

Mae FESS hefyd wedi sefydlu rhwydwaith diogelu ariannol yn ymgorffori partneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector - gan gynnwys banciau stryd fawr, Cyngor ar Bopeth a mudiadau allweddol eraill - i roi ymateb amlddisgyblaeth mewn achosion o gam-drin ac ecsbloetio ariannol. Mae'r partneriaid i gyd yn cytuno i brotocol diogel gan gytuno i adnabod pobl a allai fod yn fregus a'u cyfeirio at Safonau Masnach.

Mae nifer o brosiectau eraill yn rhan o'r rhaglen FEE gan gynnwys:

- Truecall – blocio galwadau niwsans / dadansoddi risg y dioddefwr
- Ymyriadau dyled ac iechyd meddwl
- Ymyriadau cyngor i ddefnyddwyr bregus / eiriolaeth arbenigol

- Ardaloedd dim galw'n ddiwahoddiad
- Prynu efo Hyder (cod ymarfer i fasnachwyr lleol)
- Addysg / ymwybyddiaeth ariannol i ddefnyddwyr
- Protocolau diogelu wrth fancio

Casgliadau ac argymhellion allweddol

O ystyried y risg benodol sydd gan bobl hŷn o ddioddef VAWDASV a cham-drin ariannol, fel y gwelsom o'r ystod eang o dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n hollbwysig bod y gwasanaethau iawn yn eu lle i'w hamddiffyn a'u cefnogi.

Er bod y systemau, polisïau a'r ddeddfwriaeth sydd yn eu lle wedi helpu i sicrhau bod cymorth o ryw fath ar gael ar draws Cymru, mae'r dystiolaeth a rannwyd gan randdeiliaid yn dangos prinder dybryd o wasanaethau wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer pobl hŷn sy'n adlewyrchu diffyg lleisiau pobl hŷn wrth ddatblygu gwasanaethau.

Ar ben hynny, mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr o'r ffyrdd penodol y gall pobl hŷn ddioddef cam-drin, a'r math o gymorth a fyddai'n cael yr effaith fwyaf llesol arnynt – a hyn wedi'i waethygu gan ddiffyg data trylwyr – yn arwain at wasanaethau nad ydynt yn ymateb yn iawn i anghenion pobl hŷn, a dulliau o weithio a allai fod yn rhwystro pobl hŷn rhag gofyn am help a chymorth.

Gall pobl hŷn gyda nodweddion a warchodir, sydd hefyd efallai'n arbennig o fregus, wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn golygu bod mwy fyth o risg iddynt gael niwed sylweddol.

Er ei bod yn galonogol gweld corff cynyddol o ymarfer da ar waith yng Nghymru – wedi'i ategu gan ffocws ar weithio mewn partneriaeth, mwy o integreiddio a dulliau mwy person-ganolog o weithio – ynghyd ag enghreifftiau o gymorth yn cael ei roi i bobl hŷn ar lefel y gymuned, mae'n glir bod angen gwneud mwy i gyflwyno newid a gwella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin.

Mae'r tîm a wnaeth y gwaith ymchwil y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno hefyd wedi cynnig cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu i wella gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn. Cyflwynir yr argymhellion allweddol isod a bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Ochr yn ochr â hyn, bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda'r Grwpiau Llywio ac Atal Cam-drin i edrych ar bryderon ac argymhellion ehangach y tîm ymchwil ac i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i wthio a darparu newid i bobl hŷn.

Gwasanaethau a chymorth

- Dylid annog gwneuthurwyr polisi, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau VAWDASV i adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gynhwysol ac nad ydynt yn anfwriadol yn ymylu na'n rhoi rhwystrau ychwanegol yn llwybr pobl hŷn, o'r holl grwpiau nodweddion a warchodir, i dderbyn gwybodaeth a chymorth.

- Dylai gwneuthurwyr polisi, comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth ystyried sut orau i gwrdd ag anghenion pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu gwasanaethau i ateb eu heriau penodol.

- Dylai darparwyr gwasanaethau arbenigol adnabod a / neu ystyried recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ac ystyried rhannu adnoddau Cymraeg ar lefel ranbarthol, lle mae rhai ar gael ac mae hynny'n ymarferol.

- Dylai Llywodraeth Cymru a darparwyr tai ystyried cynyddu argaeledd unedau gwasgaredig gyda chymorth cofleidiol i bobl hŷn sydd wedi dioddef VAWDASV.
- Dylid annog comisiynwyr y Grant Cymorth Tai i ystyried anghenion llety pobl hŷn sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth gomisiynu gwasanaethau.
- Dylid annog awdurdodau lleol a'r sector VAWDASV arbenigol i adolygu a diwygio eu gweithdrefnau i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin ac nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer diogelu neu MARAC lwybrau clir i dderbyn gwybodaeth a chymorth.
- Dylid dylunio gwasanaethau yn y dyfodol, ar ôl i'r pandemig ddod i ben, gan ystyried bod angen cymorth wyneb yn wyneb a mwy hirdymor i bobl hŷn.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiadau pobl hŷn

- Dylid annog Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i fod yn gynhwysol o bobl hŷn wrth gynllunio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a pharatoi llenyddiaeth farchnata, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y gymuned i bobl hŷn, e.e. mewn meddygfeydd, fferyllfeydd, canolfannau cymunedol ac archfarchnadoedd.
- Dylid cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i dynnu sylw at gam-drin pobl hŷn yn ariannol ac i greu mwy o ymwybyddiaeth o'r broblem. Dylent gynnwys negeseuon syml yn egluro arwyddion cam-drin ariannol gan aelodau o'r teulu a phobl eraill, a beth i'w wneud yn y sefyllfaoedd hyn.
- Dylid annog y cyfryngau i ystyried cynnwys profiadau pobl hŷn o VAWDASV yn eu rhaglenni ac wrth adrodd newyddion.

Casglu data

- Dylid annog Llywodraeth Cymru a'r ONS i sicrhau bod ystadegau sy'n cael eu casglu am brofiadau pobl hŷn o VAWDASV yn gynhwysfawr ac yn cynnwys pob oed, mewn grwpiau perthnasol o 60 oed ymlaen.
- Dylai mudiadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth arbenigol ystyried casglu a monitro data ar sail oed am ddefnyddwyr gwasanaeth, a datblygu eu gwasanaethau i'w gwneud yn fwy hygyrch i, a chynhwysol o, anghenion penodol pobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV.
- Dylai timau MARAC unigol ystyried casglu data ar sail oed am ddioddefwyr.

Hyfforddiant

- Dylid cynnwys modiwlau hyfforddi pwrpasol, seiliedig ar dystiolaeth ar brofiadau pobl hŷn o VAWDASV yn y Fframwaith Hyfforddiant VAWDASV Cenedlaethol i wella'r broses adnabod ac ymateb ymarferwyr / gwasanaethau yn yr holl awdurdodau perthnasol a darparwyr VAWDASV arbenigol.

- Dylid annog mudiadau sy'n disgyn y tu allan i gylch gwaith y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i gynnwys hyfforddiant pwrpasol, seiliedig ar dystiolaeth ar brofiadau ac anghenion pobl hŷn sy'n dioddef VAWDASV yn eu cynlluniau i ddatblygu'r gweithlu.
- Dylai staff Safonau Masnach dderbyn hyfforddiant ar gam-drin ariannol, y ddeddfwriaeth Galluedd Meddyliol a gwneud asesiadau galluedd meddyliol.

Polisi, strategaeth a deddfwriaeth

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau a'i strategaethau perthnasol i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion pobl hŷn, yn enwedig o ran VAWDASV a cham-drin ariannol fel y diffiniwyd hynny yn y gwaith hwn.
- Dylid annog Llywodraeth Cymru i gryfhau'r pwyslais ar gam-drin oedolion gan aelodau o'r teulu, fel rhan o'r Strategaeth VAWDASV Genedlaethol.

ATODIAD 1: Crynodeb o'r Tirlun Gwasanaeth yng Nghymru - VAWDASV

Isod rhoddir gwybodaeth am y mudiadau a'r sefydliadau, y strwythurau, gwasanaethau a'r rhaglenni sydd yn eu lle ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i amddiffyn a diogelu pobl hŷn yng Nghymru a rhoi cymorth i unigolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef VAWDASV.

CENEDLAETHOL

Cymorth i Ferched Cymru

Elusen genedlaethol yw Cymorth i Ferched Cymru (WWA) a'i phrif nod yw gweithio i roi diwedd ar gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Hwn yw corff ymbarél cenedlaethol y trydydd sector ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol yng Nghymru. Mae gan y mudiad 19 o aelodau cysylltiol ac yn rhan o rwydwaith traws-DU.

Rôl yr elusen yw ymgyrchu a dylanwadu ar bolisi a datblygiad rhaglenni ac mae'n darparu ystod o wasanaethau fel y llinell gymorth Byw Heb Ofn sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddiant Cenedlaethol; Rhwydwaith Goroeswyr Cenedlaethol a Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achrededig ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol.

Mae WWA hefyd yn rhedeg prosiectau peilot i ymgysylltu'n well â goroeswyr a gwella'r cymorth sydd ar gael:

- Gwasanaethau Addysgu a Grymuso Goroeswyr (SEEdS) – sy'n rhoi cyfle i oroeswyr VAWDASV ddefnyddio eu profiadau i ddylanwadu ar bolisi a datblygiad gwasanaethau, gwaith a arweiniodd at ddatblygu pecyn ymarfer da a Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr.
- Gofyn i Fi – lle mae pobl yn y gymuned yn dod yn 'llysgenhadon' gan dderbyn hyfforddiant a chymorth i wybod sut i ddechrau sgyrsiau yn eu cymuned; adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a, pan fydd cam-drin yn cael ei ddatgelu, rhoi ymateb cefnogol a pharod sy'n cynnwys cyfeirio ymlaen at wasanaethau arbenigol lleol.
- Newid sy'n Para – model traws-sector seiliedig ar gryfderau ac anghenion sy'n ceisio hwyluso'r fframwaith byrraf a'r llwybr mwyaf byr a mwyaf effeithiol at ddiogelwch, rhyddid ac annibyniaeth i bob goroeswr, ar sail eu sefyllfa unigryw fel unigolyn a'r adnoddau sydd ar gael.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Llinell gymorth traws-Gymru gan Lywodraeth Cymru yw Byw Heb Ofn sy'n ceisio cynnig cymorth a gwybodaeth gyfrinachol o ansawdd da i oroeswyr a dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cynnwys grwpiau sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef pob math o drais o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a

Thrais Rhywiol (VAWDASV), gan gynnwys trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu menywod a gorfodi i briodi. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymyrryd argyfwng yn ogystal â gwybodaeth a chyngor cyffredinol.

Mae'r Llinell Gymorth yn cael ei darparu drwy 'fodel prif ganolfan a lloerennau' sy'n cynnwys Llinell Gymorth graidd (y 'ganolfan') a model partneriaeth unigryw sy'n cynnig ystod o lwybrau cyfeirio ffurfiol (y 'lloerennau') at wasanaethau VAWDASV arbenigol, mudiadau a chyrff statudol, a rhanddeiliaid eraill. Mae pob 'llwybr' yn cael ei ddarparu'n unol â chytundebau a chanllawiau manwl; mae rôl y rhanddeiliaid mewn darparu'r Llinell Gymorth felly wedi'i nodi'n glir ac yn gwbl ddealladwy.

Mae'r Llinell Gymorth yn derbyn adborth gan randdeiliaid a phartneriaid allweddol yn rheolaidd, sydd yna'n cael ei ddefnyddio i fonitro gweithrediad a darparu pob llwybr, ac i wneud unrhyw newid neu ddiweddariad fel bo angen.

Hourglass

Elusen traws-DU yw Hourglass, o'r enw Action ar Elder Abuse yn flaenorol, a'i chenhadaeth yw atal niwed, cam-drin ac ecsbloetio pobl hŷn yn y Deyrnas Unedig. Fel mudiad arbenigol, mae'n canolbwyntio'n llwyr ar gamdriniaeth o bobl hŷn gyda'r nod o atal cam-drin pobl hŷn drwy godi ymwybyddiaeth; annog addysg; hyrwyddo ymchwil; a chasglu a dosbarthu gwybodaeth.

Gweledigaeth y mudiad yw cymdeithas sy'n gweld gwerth pobl hŷn a lle gall pobl hŷn ac oedolion eraill fyw'n rhydd o gael eu cam-drin gan rai y maen nhw'n disgwyl gallu ymddiried ynddynt.

Mae gan Hourglass bresenoldeb yng Nghymru a'i nod yw:

- Lobio a dylanwadu ar y fframwaith cyfreithiol a chyfiawnder troseddol, ac ar Lywodraeth Cymru, i amddiffyn pobl hŷn rhag cael eu cam-drin a chreu sgwrs genedlaethol ar heneiddio'n fwy diogel;
- Teilwrio cyfathrebu gyda phob ymgyrch a gwasanaeth i gynulleidfaoedd Cymru ynghyd ag ymrwymo i fuddsoddi yn y Llinell Gymorth i sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog ar gael; a
- Taflu golau ar y rhwystrau sefydliadol i wasanaethau ar gyfer pobl BAME a grwpiau lleiafrifol eraill yng Nghymru drwy gasglu portffolio amrywiol o astudiaethau achos ynghyd.

Mae gan y mudiad linell gymorth gyfrinachol am ddim yn benodol i bobl hŷn sy'n cael neu mewn perygl o gael eu cam-drin, neu i unrhyw un sy'n poeni am berson hŷn.

Y Prosiect Dyn

Mae'r prosiect Dyn, sy'n helpu dynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thraws sy'n cael eu cam-drin gan bartner i dderbyn gwasanaethau yn eu hardal leol, yn cael ei redeg gan Cymru Ddiogelach a sefydlwyd dros 20 mlynedd yn ôl i weithio gyda dioddefwyr trais domestig, treisio, cam-drin rhywiol, ecsbloetio a throseddau casineb drwy gynnig cymorth ymarferol ac eiriolaeth.

Cymorth i Ddioddefwyr

Elusen annibynnol yw Cymorth i Ddioddefwyr sy'n helpu pobl a effeithiwyd gan droseddau a digwyddiadau trawmatig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r elusen yn darparu gwasanaethau arbenigol i helpu pobl i ymdopi ac adfer o'u profiadau p'un ai y gwnaethant adrodd y trosedd i'r heddlu neu beidio, a phryd bynnag y digwyddodd y trosedd.0} Mae'n rhan o waith tîm aml-droseddau arbenigol sy'n derbyn achosion a atgyfeiriwyd gan dri o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Mae'r elusen yn cyflogi IDVA fel gweithiwr achosion Cam-drin Domestig gan gynnig cymorth i ddioddefwyr gyda risg arferol a chanolig o gam-drin domestig, a chyfeirio rhai gyda risg uchel at y gwasanaeth IDVA perthnasol. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn gweithio'n agos ag Age Cymru, Hourglass Cymru a darparwyr VAWDASV arbenigol i sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth mwyaf priodol i ateb eu hanghenion.

Hafan Cymru

Cymdeithas dai traws-Gymru unigryw yw Hafan Cymru sy'n darparu tai'n bennaf i ddynion a menywod, a'u plant, sy'n dioddef cam-drin domestig ar draws 16 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ogystal â rhoi cymorth i rai sy'n dioddef cam-drin domestig, mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i unigolion eraill sydd ag anghenion cymhleth neu luosog fel pobl sy'n adfer o iechyd meddwl, cyn-droseddwyr, pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau a phobl ifanc yn gadael gofal. Mae Hafan Cymru hefyd yn rhedeg cwpwl o brosiectau fel Siediau Dynion i helpu dynion sy'n dod at ei gilydd yn y gymuned i oresgyn unigrwydd a theimlo'n ynysig, a Spectrum sy'n rhaglen perthnasoedd iach mewn ysgolion.

STRWYTHURAU RHANBARTHOL

O dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol rhag gweithio ar lefel ranbarthol i ddatblygu a gweithredu strategaethau VAWDASV rhanbarthol ac mae Llywodraeth Cymru yn annog y math hwn o gydweithrediad.

I bwrpas gweithio ar lefel ranbarthol, mae chwe rhanbarth i gyd a'r rhan fwya'n cyd-ffinio â'r byrddau iechyd lleol ar wahân i Ganolbarth a Gorllewin Cymru sy'n ymgorffori Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Disgwylir i'r strategaethau rhanbarthol ar gyfer yr ardaloedd hyn adnabod blaenoriaethau strategol lefel uchel a chynnwys cynlluniau darparu rhanbarthol. Disgwylir i'r strategaethau rhanbarthol ddisgrifio sut y bydd y rhanbarth yn cyflawni chwe amcan y Strategaeth VAWDASV Genedlaethol y cyfeirir ati ym mharagraff 4.5 Adran 4 uchod.

Paratowyd strategaethau VAWDASV i bob rhanbarth gyda byrddau partneriaeth yn goruchwylio eu gweithrediad yn bennaf, a rhai o'r byrddau hyn yn adrodd i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ac eraill i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhanbarthau wedi penodi Cynghorwyr VAWDASV Rhanbarthol i gydlynu'r gwaith darparu rhanbarthol er, mewn dau ranbarth, sef Bae Abertawe a Chaerdydd a'r Fro, mae unigolion arweiniol ym mhob awdurdod lleol.

STRWYTHURAU LLEOL

Gwasanaethau VAWDASV arbenigol

Mae 19 o wasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru wedi eu ffedereiddio i Gymorth i Ferched Cymru. Mae yna hefyd nifer o ddarparwyr arbenigol eraill sy'n gweithio ar draws Cymru ac nad ydynt yn aelodau o Gymorth i Ferched Cymru. Mae nifer ohonynt yn fudiadau mwy arbenigol neu gyda swyddogaethau eraill fel eu prif bwrpas.

Er enghraifft, mae BAWSO yn canolbwyntio ar bobl BAME ac o gymunedau mudol sy'n cael eu cam-drin; mae Llamau'n gweithio'n bennaf gyda digartrefedd ymhlith pobl ifanc; mae Hafan Cymru yn cynorthwyo pobl ag amrywiaeth o anghenion; mae Pobl yn ddarparwr tai cymdeithasol mawr sydd hefyd wedi'i gomisiynu i ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig yn Sir Benfro; ac mae Cymdeithas Dai Clwyd Alyn yn rhoi cymorth ar gam-drin domestig fel rhan o'i gwasanaethau'n gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn eithaf tebyg ond eto'n wahanol gan ddibynnu ar faes diddordeb penodol y mudiad, y cymunedau a wasanaethir a'r ffynonellau sy'n eu hariannu. Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau craidd yn darparu:

- Gwybodaeth, cyngor, cymorth ac arweiniad
- Gwasanaethau galw heibio
- Cynllunio diogelwch
- Grwpiau cyd-gefnogi
- Eiriolaeth
- Mynediad at lety lloches
- Gwasanaethau cymorth yn y gymuned ac allgymorth
- Cymorth i blant a phobl ifanc
- Ymyriadau therapiwtig

Mae'r holl wasanaethau hyn ar gael i bobl o bob oed sy'n dioddef neu sydd wedi eu heffeithio gan VAWDASV, er mai dim ond 2% o'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaethau hyn yn 2019/20 oedd dros 60 oed[62], sy'n awgrymu nad yw pobl hŷn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Mae peth tystiolaeth o wasanaethau sydd wedi eu targedu at bobl hŷn, er i nifer fach gael eu hadnabod:

- Mae'r Prosiect EDGE gan Thrive Women's Aid yng Nghastell-nedd Port Talbot yn rhoi cymorth penodol i fenywod hŷn, anabl neu fenywod sy'n Roma, sipsiwn a theithwyr sy'n dioddef camdriniaeth. Mae'r prosiect yn delio gyda thrais a cham-drin yn y grwpiau hyn drwy godi ymwybyddiaeth a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ymgysylltu ac addysgu unigolion, cymunedau a gweithwyr proffesiynol.

- Mae'r Prosiect Mentora Reconnect gan Merthyr Tudful Diogelach yn rhoi cymorth mentora i bobl dros 50 oed sydd wedi dioddef VAWDASV.

- Enghreifftiau eraill o ymarfer da wrth weithio gyda phobl hŷn sydd wedi dioddef VAWDASV yw'r Prosiect Dewis a'r Prosiect OWLS, a ddisgrifiwyd uchod.

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA)

Rôl cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA) yw rhoi sylw i ddiogelwch dioddefwyr sydd â risg uchel o gael niwed gan bartneriaid rhywiol, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu i sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch eu plant. Fel y prif bwynt cyswllt i ddioddefwr, mae cynghorwyr IDVA fel arfer yn gweithio â'u cleientiaid o'r pwynt argyfwng ymlaen i asesu lefel y risg, trafod y gwahanol opsiynau addas a datblygu cynlluniau diogelwch. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru wasanaeth IDVA er bod rhai o'r gwasanaethau'n cael eu comisiynu'n rhanbarthol.

Mae cynghorwyr IDVA yn rhagweithiol o ran gweithredu'r cynlluniau diogelwch gan roi sylw i ddiogelwch presennol y cleient a chynnwys camau ymarferol fel bo'r dioddefwr yn gallu amddiffyn eu hunain a'u plant, a chynnig atebion mwy hirdymor. Mae'r cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu'n deillio o'r gynhadledd MARAC; sancsiynau ac atebion drwy'r llysoedd troseddol a sifil; opsiynau tai a gwasanaethau gan sefydliadau eraill. Mae Cynghorwyr IDVA yn cefnogi a gweithio dros y tymor byr i ganolig i roi dioddefwyr ar y llwybr i ddiogelwch hirdymor. Maent yn derbyn hyfforddiant achrededig arbenigol ac yn meddu ar gymhwyster wedi'i gydnabod yn genedlaethol.

Rôl yr IDVA ym mhob lleoliad amlasiantaethol yw cadw persbectif a diogelwch y cleient wrth galon y drafodaeth.

Mae elusen SafeLives yn darparu hyfforddiant ac achrediad i wasanaethau IDVA. Mae SafeLives wedi datblygu rhaglen hyfforddiant i wella dealltwriaeth cynghorwyr IDVA o brofiadau cam-drin domestig pobl hŷn, gan roi ffocws ar sut y gall ffactorau cysylltiedig ag oed effeithio ar brofiad person o gam-drin, y ffactorau sy'n creu risg o niwed difrifol, a sut i gynllunio diogelwch mewn cyd-destun amlasiantaethol.[63]

Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC) a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol

Mae Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw'n cynnig cyfleusterau lle gall dioddefwyr diweddar o dreisio neu ymosodiad rhyw fynd yn syth am gymorth a chefnogaeth, gan gynnwys archwiliad meddygol fforensig a chysylltu â'r heddlu, os yw'r dioddefwr yn dymuno. Mae gan y GIG wasanaethau SARC ym Mae Colwyn a Chaerdydd ac mae gan Llwybrau Newydd wasanaeth tebyg ym Merthyr Tudful, Rhisga, Abertawe, Aberystwyth, Caerfyrddin a'r Drenewydd drwy ei is-gwmni, Canolfan Cymorth Treisio Canolbarth Cymru.

Mae Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) yn gweithio gyda phobl sydd wedi dioddef treisio ac ymosodiad rhyw, p'un ai ydynt wedi dweud wrth yr heddlu am y trosedd neu beidio. Eu rôl yw helpu dioddefwyr a goroeswyr drwy gynnig gwybodaeth gywir a diduedd ynghyd â chymorth emosiynol ac ymarferol. Mae gwasanaeth ISVA ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn y Gogledd maen nhw'n gweithio allan o ganolfan Amethyst, SARC Gogledd Cymru, gyda Llwybrau Newydd yn darparu'r gwasanaeth ISVA i weddill Cymru.

Mae Llwybrau Newydd yn rhedeg prosiectau fel Hear to Listen sy'n darparu cwnsela a chymorth o bell, a'r prosiect Outlook sy'n rhoi cymorth i droseddwyr a chyn-droseddwyr a effeithiwyd gan gam-drin domestig, treisio a mathau eraill o drawma. Mae'r prosiect L.I.B.E.R.A.T.E. hefyd yn helpu pobl sydd wedi dioddef masnachu mewn pobl i adfer o'u profiadau.

Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaethol (MARAC)

Mae achosion cam-drin domestig gyda'r risg fwyaf yn cael eu trafod mewn cynadleddau MARAC, sy'n gweithio ar sail awdurdod lleol, gan gynrychiolwyr o'r heddlu lleol, iechyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Yn y cyfarfodydd hyn, mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a buddiannau'r dioddefwyr yn cael eu cynrychioli gan IDVA er mwyn cytuno ar sut i gadw'r dioddefwr ac unrhyw blant yn ddiogel, a sut i reoli'r camdriniwr. Ni chesglir unrhyw ddata ar oed dioddefwyr sy'n cael eu cyfeirio at MARAC.

Eiriolwyr annibynnol

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth eiriolaeth oedolion annibynnol i rai sy'n gymwys i dderbyn gofal; gofalwyr; rhai ag anabledd corfforol; gyda nam dysgu neu ar eu synhwyrau; person hŷn neu fregus; neu sy'n dioddef salwch meddwl.

Awdurdodau lleol

Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldebau diogelu ac yn cyfrannu at drafodaethau MARAC.

Mae nifer o awdurdodau'n cyfeirio pobl sy'n holi at ffynonellau gwybodaeth am gam-drin domestig ond bydd eraill efallai'n egluro manylion y ddeddfwriaeth a diffinio a disgrifio beth yw cam-drin.

Mae rhai awdurdodau'n rhedeg 'siop un stop', canolfan ddiogelu aml-asiantaethol, neu'n darparu pwynt cyswllt unigol i helpu dioddefwyr cam-drin domestig ac mae amryw'n defnyddio partneriaethau Diogelach i roi cymorth VAWDASV neu'n cyfeirio pobl at eu cysylltiadau gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae amryw'n cyfrannu at ymgyrch fyd-eang Rhuban Gwyn, a sefydlwyd gan ddynion a bechgyn i roi diwedd ar drais gan ddynion yn erbyn menywod a merched.

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL)

Mae cymdeithasau tai'n darparu ystod o wasanaethau cymorth i denantiaid sydd efallai'n dioddef VAWDASV ac mae gan y rhan fwyaf brosesau cadarn i ddelio ag achosion. Mae cymorth gan y mwyafrif helaeth o landlordiaid RSL yn cael ei ddarparu fel rhan o wasanaethau cymorth tenantiaid cyffredinol y cymdeithasau. Fodd bynnag, mae Pobl, Hafan Cymru, Grŵp Cynefin a Clwyd Alyn wedi cael eu comisiynu i ddarparu ystod o wasanaethau VAWDASV yn y gymuned yn eu gwahanol ardaloedd.

CYRFF GWASANAETHAU CYHOEDDUS ERAILL

Ar wahân i awdurdodau lleol, mae byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi eu diffinio fel "awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac mae ganddynt felly gyfrifoldeb strategol statudol. Nid yw'r Heddlu'n dod o dan y Ddeddf oherwydd nid yw gwaith cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli.

Fodd bynnag, mae gan yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu rôl allweddol i'w chwarae mewn atal, amddiffyn a chefnogi unigolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef VAWDASV.

Byrddau iechyd

Mae pob bwrdd iechyd yn cyfrannu at ariannu gwasanaethau cam-drin a thrais rhywiol yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd unigol ar wahanol bwyntiau o ran gweithredu eu dyletswyddau o dan y Ddeddf VAWDASV.

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yn dilyn gweithdrefn ymholiadau cam-drin domestig i ddelio ag achosion lle mae amheuaeth o VAWDASV a, lle bo angen, yn dilyn llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol drwy'r llinell Byw Heb Ofn.

Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn darparu gwasanaethau atal troseddu i bobl sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef VAWDASV, gan gynnwys drwy wneud archwiliadau diogelwch cartref a gwella diogelwch. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo aelod o staff i astudio'r cymhwyster IDVA er mwyn cynnig ymateb gwell i unigolion sy'n dioddef VAWDASV.

Yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

Mae pob heddlu drwy Gymru'n cydnabod pa mor bwysig yw delio gyda VAWDASV, ac mae ystod o gynlluniau yn eu lle i geisio atal cam-drin domestig ac amddiffyn unigolion a allai fod yn fregus. Fodd bynnag dylid nodi nad oes cynlluniau penodol i ddelio â cham-drin yn eu lle ym mhob ardal heddlu; mae rhai ar waith mewn ardaloedd blaenoriaeth ehangach.

Mae heddluoedd yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys fel rhan o'r broses MARAC, ac yn defnyddio amrywiaeth o sianeli i roi gwybodaeth i bobl yn y gymuned.

ATODIAD 2: Crynodeb o'r Tirlun Gwasanaeth yng Nghymru – Cam-drin Ariannol

Isod rhoddir gwybodaeth am y mudiadau a sefydliadau, y strwythurau, gwasanaethau a'r rhaglenni sydd yn eu lle i amddiffyn a diogelu pobl hŷn yng Nghymru rhag cam-drin ariannol, a rhoi cymorth i unigolion.

Yr Heddlu / Action Fraud

Gall pobl hŷn sydd wedi dioddef cam-drin ariannol adrodd y mater yn uniongyrchol naill ai i'w heddlu lleol neu i Action Fraud. Porth canolog yw Action Fraud i unrhyw un gael adrodd twyll neu gam-drin ariannol naill ai ar-lein neu dros y ffôn.

Heddlu Dinas Llundain sy'n rhedeg y gwasanaeth hwn. Pan adroddir achos o dwyll neu gam-drin ariannol, mae'n cael ei asesu i gadarnhau a oes achos cryf dros wneud ymholiadau, ac os oes, mae'r heddlu perthnasol – fel arfer ble mae'r camdriniwr yn debygol o fyw neu weithredu ohono – yn anfon yr achos i'w ymchwilio.0}

Mae Action Fraud yn anfon rhestr wythnosol o achosion, yn enwi'r dioddefwyr, at holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Mae nifer yr hysbysiadau ar gynnydd ond yn amrywio yn ôl awdurdod gan ddibynnu ar ei ddemograffeg.

Ar ôl derbyn yr hysbysiadau, mae Swyddog Diogelu Ariannol yr heddlu'n cysylltu â phobl dros 70 oed ac eraill a ddosbarthwyd fel pobl fregus. Mae Action Fraud hefyd yn rhyddhau asesiad misol o'r bygythiad twyll yn dangos unrhyw batrwm a grwpiau oed y dioddefwyr. Mae Covid-19 wedi effeithio ar hyn ac mae'r data'n cael ei ddadansoddi.

Y Swyddfa Atal Twyll Genedlaethol

Mae'r Swyddfa Atal Twyll Genedlaethol (NFIB) yn gweithio ochr yn ochr ag Action Fraud yn Heddlu Dinas Llundain. Mae'r Swyddfa'n derbyn holl adroddiadau twyll a seiber-droseddu Action Fraud gan ddefnyddio'r wybodaeth i adnabod troseddwyr rheolaidd, grwpiau troseddu cyfundrefnol a mathau newydd o droseddau. Mae'r NFIB hefyd yn derbyn gwybodaeth gan ffynonellau eraill fel heddluoedd unigol, cyrff corfforaethol mawr, y sector cyhoeddus ac asiantaethau casglu gwybodaeth rhyngwladol.

Mae'r wybodaeth yna'n cael ei dadansoddi a'r data'n cael ei gyfateb i adnabod y troseddwyr y tu ôl i'r twyllo, cyn anfon adroddiadau i heddluoedd lleol i'w hymchwilio.

Safonau Masnach Cenedlaethol

Sefydlwyd Safonau Masnach Cenedlaethol yn 2012 fel corff ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyfrifol am warchod defnyddwyr a diogelu busnesau drwy brosiectau gorfodaeth trawsffiniol seiliedig ar wybodaeth. Mae timau cenedlaethol, sy'n ymchwilio i faterion fel e-droseddu, sgamiau a gwyngalchu arian, yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol. Mae'r corff yn gwrthsefyll

masnachwyr diegwyddor ac ymdrin â blaenoriaethau. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys twyll marchnata torfol, troseddau stepan drws a galw'n ddiwahoddiad, masnach deg mewn ceir ail law a'r fasnach ynni, a chyflenwi cynhyrchion ffug.

Mae Safonau Masnach Cenedlaethol yn gorfodi amddiffyn defnyddwyr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yn bennaf yw amddiffyn defnyddwyr a diogelu busnesau cyfreithlon drwy ddelio gyda materion amddiffyn defnyddwyr difrifol a throseddu cyfundrefnol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae rôl Safonau Masnach Cenedlaethol yn cynnwys cydgysylltu'r gwaith gorfodi i sicrhau bod gan ddefnyddwyr a busnesau gymaint o warchodaeth â phosib. Ei ffocws yw arwain ymchwiliadau i droseddau safonau masnach.

Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol

Sefydlwyd y Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol i warchod defnyddwyr a diogelu busnesau drwy brosiectau gorfodaeth trawsffiniol, seiliedig ar wybodaeth, yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Tîm yn helpu i fynd i'r afael â sgamiau marchnata torfol drwy weithio mewn partneriaeth i adnabod a chynorthwyo rhai sydd wedi dioddef twyll marchnata torfol. Mae staff safonau masnach awdurdodau lleol yn derbyn canllawiau ac enghreifftiau o ymarfer da i fod yn fwy effeithiol wrth gymryd camau gorfodaeth a chynorthwyo dioddefwyr yn lleol.

Mae'r tîm yn gweithio gyda safonau masnach ac asiantaethau partner i ymchwilio i sgamiau ac adnabod a chynorthwyo rhai sy'n disgyn amdanynt. Mae sgamiau post, ffôn a stepan drws yn aml yn cael eu targedu'n benodol at ddefnyddwyr difreintiedig neu sy'n mynd drwy gyfnod bregus.

Nod Tîm Sgamiau'r NTS yw:

- Adnabod dioddefwyr sgamiau.
- Ymyrryd ac amddiffyn dioddefwyr rhag fictimeiddio pellach.
- Ymchwilio i ymddygiad troseddol.
- Hysbysu awdurdodau lleol ac asiantaethau ynghylch sut i weithio gyda a chefnogi dioddefwyr sgamiau.
- Dylanwadu ar bobl ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i wneud safiad yn erbyn sgamiau.

O ran y nod olaf, mae'r Tîm Sgamiau wedi lansio'r prosiect Ffrindiau yn erbyn Sgamio sy'n ceisio amddiffyn ac atal pobl rhag disgyn am sgamiau drwy rymuso cymunedau i sefyll yn gadarn yn erbyn sgamiau. Dyluniwyd y prosiect i ysbrydoli gweithredu, tynnu sylw at faint y broblem, newid argraff pobl o'r rhesymau pam fod pobl yn disgyn am sgamiau, a gwneud sgamiau'n bwnc cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol yn derbyn data ar ddioddefwyr sgamiau posib gan sefydliadau partner. Mae'r bobl hyn yna'n cael eu cyfeirio at Dîm Safonau Masnach yr awdurdod lleol perthnasol er mwyn cefnogi'r dioddefwr posib. Mae'r tîm lleol perthnasol yna'n adrodd yn ôl ar y canlyniad i'r Tîm Sgamiau Cenedlaethol.

Tîm e-Droseddu Safonau Masnach Cenedlaethol

Mae'r Tîm e-Droseddu Safonau Masnach Cenedlaethol yn monitro ac ymchwilio i nifer o fentrau twyll defnyddwyr a busnes ar-lein, gan gynnwys sgamiau gwefannau rhamant, gwefannau camarweiniol, trapiau tanysgrifio a thwyll siopa ar-lein.0} Mae'r tîm yn darparu cymorth cenedlaethol i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr i helpu i ddelio â'r bygythiadau cynyddol i fusnesau a defnyddwyr o sgamiau a thwyll ar y we. Mae'r tîm yn rhoi cyngor a chymorth fforensig a chynnal ymchwiliadau seiliedig ar wybodaeth.

Safonau Masnach Cenedlaethol – Ffrindiau yn erbyn Sgamio

Mae Safonau Masnach Cenedlaethol yn codi ymwybyddiaeth o sgamiau ariannol drwy ei brosiect Ffrindiau yn erbyn Sgamio sy'n ceisio amddiffyn pobl rhag disgyn am sgamiau drwy eu grymuso i wneud safiad, drwy annog gweithredu, tynnu sylw at faint y broblem, newid argraff pobl o'r rhesymau pam fod pobl yn disgyn am sgamiau a gwneud sgamiau'n bwnc cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol. Lansiwyd y prosiect ar ddiwedd Tachwedd y llynedd, ac ar adeg yr ysgrif hon roedd dros 4,500 o Ffrindiau yn erbyn Sgamio yng Nghymru, pob un ohonynt yn arbed £59 i economi'r Deyrnas Unedig. Roedd yna hefyd 88 o Bencampwyr sy'n hyfforddi pobl i fod yn Ffrindiau yn erbyn Sgamio, a 28 o Lysgenhadon sy'n weision cyhoeddus proffil uchel neu'n wleidyddion. Ar ben hyn, mae 20 o sefydliadau wedi cofrestru i gefnogi'r prosiect drwy annog staff i wirfoddoli.

O'r bobl a dargedwyd gan sgamiau ac sydd am wneud safiad yn erbyn sgamio, mae marsialyddion sgam yn cael eu recriwtio i rannu eu profiadau a helpu eraill i adnabod sgamiau a rhoi cymorth i ddioddefwyr. Maen nhw hefyd yn anfon unrhyw bost sgam a dderbynnir ganddynt at Safonau Masnach Cenedlaethol. Ar adeg yr ymchwil, roedd 123 o Farsialyddion Sgam yng Nghymru. Yn dilyn gwerthuso pa mor effeithiol oedd y prosiect hwn, ar ôl tri mis roedd bron i 90% o'r Marsialyddion Sgam heb golli unrhyw arian i bost sgam ac wedi lleihau nifer y post sgam o bron i bum digwyddiad.

Timau Ymchwilio Rhanbarthol Safonau Masnach Cenedlaethol

Mae gan Safonau Masnach Cenedlaethol nifer o Dimau Ymchwilio Rhanbarthol ar draws Cymru a Lloegr sy'n targedu troseddwyr sy'n cyflawni troseddau stepan drws, cynhyrchion ffug, twyll defnyddwyr a busnes, a throseddau cysylltiedig eraill. Yng Nghymru, mae'r tîm yn gweithredu drwy Benaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHoTS).

Penaethiaid Safonau Masnach Cymru

Mae Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHoTS) yn cynrychioli'r 22 Gwasanaeth Safonau Masnach yn awdurdodau lleol Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth cyson, gwell a chydgysylltiedig i ddefnyddwyr a busnesau yng Nghymru. Mae'n gweithredu dan nawdd Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru gan roi arweinyddiaeth strategol i waith Safonau Masnach yng Nghymru.

Mae Tîm Atal Sgamio (Scambusters) Cymru wedi'i sefydlu yn WHoTS ers dros 10 mlynedd, wedi'i redeg gan Safonau Masnach Casnewydd. Mae'n cynnwys Swyddogion Safonau Masnach dynodedig a chyn-blismyn profiadol. Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion o'r heddlu, Cyllid a Thollau EM ac asiantaethau gorfodi eraill i ddelio â'r sgamiau a'r masnachu

diegwyddor anoddaf eu datrys. Mae wedi targedu troseddau stepan drws; casglwyr elusen ffug; technegau gwerthu twyllodrus; cynlluniau gweithio o gartref ac "ennill pres yn gyflym" eraill; gwaith adeiladu diangen a gwael; a chynlluniau nwyddau ffug cyfundrefnol ar raddfa fawr.

Mae gan y tîm hefyd rôl ragweithiol i'w chwarae mewn addysgu a magu hyder defnyddwyr a busnesau drwy godi ymwybyddiaeth o fasnachwyr diegwyddor a ffugwyr a helpu defnyddwyr i wahaniaethu rhwng busnesau diegwyddor a rhai dibynadwy.

Mae Safonau Masnach yng Nghymru hefyd wedi datblygu rôl dadansoddi gwybodaeth. Mae Penaethiaid Safonau Masnach Cymru'n cyflogi Swyddog Gwybodaeth Rhanbarthol (RIO) i helpu'r 22 gwasanaeth i gasglu gwybodaeth, a chynorthwyo'r Tîm Atal Sgamio (Scambusters). Mae'r RIO yn gweithio gyda Databas Gwybodaeth Cenedlaethol i hwyluso rhannu gwybodaeth ar lefel genedlaethol ymhlith safonau masnach drwy'r DU a gydag asiantaethau gorfodi eraill. Drwy'r data-bas, mae gan y safonau masnach fynediad at siartiau gwybodaeth ac adroddiadau dadansoddol i gynorthwyo gwaith ymchwilio mwy cymhleth.

Mae'r RIO wedi datblygu cysylltiadau agos â'r pedwar heddlu yng Nghymru, a chwmnïau fel eBay.

Mae Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru (WIMLU), wedi'i hariannu gan y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol, hefyd yn gweithredu o dan WHoTS. Mae'r Uned yn cynnwys ymchwilwyr arbenigol, swyddogion cymorth i ddioddefwyr a chynghorwyr dyled, gan weithio'n agos ag Awdurdodau Safonau Masnach lleol. Mae'n targedu benthycwyr arian anghyfreithlon, neu siarcod benthyg, gan ymchwilio i droseddau cysylltiedig a chefnogi dioddefwyr hefyd. Mae hefyd yn rhoi hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a mudiadau cynghori ar sut i adnabod benthyca arian anghyfreithlon. Mae'r tîm wedi'i leoli yng Nghyngor Dinas Caerdydd.

Safonau Masnach Lleol

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru'n gyfrifol am safonau masnach yn eu priod ardaloedd. Mae'r gwaith fel arfer yn cael ei wneud o dan rôl Gwarchod y Cyhoedd, gyda'r ffocws ar gyfres o flaenoriaethau cenedlaethol i Gymru. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys gwarchod pobl rhag niwed a hybu gwella iechyd; sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd; hyrwyddo masnach deg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau; gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n bositif ar ansawdd bywyd, a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae Safonau Masnach yn gyfrifol am reoleiddio ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae'r timau'n cynghori busnesau, ymchwilio i gwynion, cynnal archwiliadau ac yn profi a samplo cynhyrchion a gwasanaethau i sicrhau eu bod yn ddiogel a phriodol i ddefnyddwyr. Y nod yn y pen draw yw sicrhau marchnadoedd teg a chystadleuol, mentro gonest a rhedeg busnesau'n llwyddiannus er mwyn datblygu'r economi, diogelu'r gymuned, gwarchod yr amgylchedd a sicrhau poblogaeth iach.

Cyngor ar Bopeth

Mae rhwydwaith Cyngor ar Bopeth y DU yn rhedeg gwasanaeth cynghori ar ystod eang o faterion i'r cyhoedd. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig gwasanaeth cymorth holistig ac integredig i'w cwsmeriaid. Lle bo angen, maen nhw'n cyfeirio cwsmeriaid at asiantaethau eraill i geisio datrys problemau ehangach. Y prif bynciau cymorth yw budd-daliadau lles, dyled a thai.

Mae meysydd eraill yn cynnwys cyflogaeth, gwahaniaethu, mewnfudo, addysg a thlodi tanwydd. Yn genedlaethol, mae Cyngor ar Bopeth yn rhedeg system rheoli achosion wynebu'r cwsmer o'r enw Tableau sy'n cofnodi demograffeg, daearyddiaeth, math a chymhlethdod yr achosion.

Rhoddir cyngor penodol ar hawliau'r defnyddiwr drwy linell gymorth, cefnogir tystion yn y llys drwy Wasanaeth Tystion, a rhoddir cyngor pensiynau am ddim i bobl dros 50 oed. Mae'r gwasanaeth cynghori'n gweithio'n agos â Safonau Masnach. Ar wahân i'w gwasanaeth cynghori, mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn gwneud ymchwil a chynnal ymgyrchoedd.

Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n rhan o rwydwaith o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth ar draws y DU. Mae 19 o gwmnïau Cyngor ar Bopeth lleol drwy Gymru a phob un yn elusen annibynnol yn rhoi cyngor cyfrinachol am ddim dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae un yn gweithio yn ardal Caerffili a Blaenau Gwent, un arall yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac un yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r 12 arall yn cyd-ffinio â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Llwyddodd fraich Cymru o Gyngor ar Bopeth i sicrhau cyllid i brosiectau, un ohonynt yn ymwneud â gwella incwm yn awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwaith yn digwydd mewn partneriaeth, gyda dioddefwyr cam-drin domestig yn rhan o'r grŵp targed. Mae prosiect hefyd ar waith yng nghanolbarth a gorllewin Cymru wedi'i dargedu at bobl hŷn lle mae unrhyw berson hŷn sy'n cyflwyno am gymorth, ac a asesir i fod mewn perygl o gael eu cam-drin, yn cael eu cysylltu gyda'u caniatâd i fudiadau eraill am gyngor, ynghyd â'r cyngor helaeth y gall Cyngor ar Bopeth ei roi.

Y llynedd, llwyddodd Cyngor ar Bopeth i sicrhau £8.1m gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor cyffredinol ac arbenigol ar draws Cymru gyfan. Defnyddiwyd yr arian i sefydlu Advicelink Cymru i ddarparu gwasanaeth ffôn a digidol o bell dros Gymru gyfan, mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn gallu rhoi profiad di-dor i'r cwsmer.

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn rheoleiddio cwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol. Ei nod yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael chwarae teg a bod y marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i unigolion, busnesau a'r economi'n gyffredinol. Mae pobl yn cysylltu â'r FCA i adrodd sgamiau am gwmnïau diawdurdod neu unigolion yn cysylltu â nhw ynghylch buddsoddiadau, pensiynau, benthyciadau, gwerthu yswiriant a gwarantau, rheoli hawliadau a chredyd i ddefnyddwyr. Drwy ei wasanaeth ScamSmart, mae'r Awdurdod yn cynnig cyngor ar amrywiaeth o sgamiau.

Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Ariannol

Mae'r Ombwdsmon Ariannol yn delio gyda chwynion gan fusnesau a defnyddwyr am gwmnïau ariannol. Mae'n ymdrin ag anghydfodau'n ymwneud â chyfrifon banc; yswiriant gwarchod taliadau; benthyciadau; casglu dyledion; morgeisi; cyngor ariannol, buddsoddiadau a phensiynau. Mae'n datrys cwynion gan gwsmeriaid am sgamiau ariannol ac yn rhoi cyngor ar sut i osgoi cael eich sgamio.

Yn 2019, cyflwynwyd cod gwirfoddol yn cynnig gwarchod pobl rhag “twyll taliadau gwthio” yn dilyn 40% yn fwy o gwynion am sgamiau a thwyll bancio yn 2018-19.[64]

Age Cymru

Mae Age Cymru yn rhoi cyngor ar wahanol sgamiau a sut i ymateb os cewch eich targedu. Y rhai mwyaf cyffredin sy’n effeithio ar bobl hŷn yw pensiynau; stepan drws; drwy’r post; buddsoddi; a ffonio / galw’n ddiwahoddiad.

Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (WASP)

Cynllun partneriaeth yw WASP a sefydlwyd ar-y-cyd rhwng Age Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i weithredu yn erbyn twyllwyr a sgamwyr ariannol er mwyn diogelu pobl hŷn a bregus. Mae’r partneriaid yn cynnwys Safonau Masnach, Scambusters, Get Safe Online, heddluoedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, Banc Barclays, Banc Lloyds, yr Halifax a British Gas. Y nod yw gwneud Cymru’n wlad fwy diogel i bobl hŷn a bregus. Cynhyrchwyd siarter yn rhestru’r ymrwymiadau y mae partneriaid yn cytuno iddynt.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae’r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar gam-drin ariannol, a ddisgrifir fel trosedd.

Cyllid y DU

Mae Cyllid y DU yn cynrychioli 250 o gwmnïau bancio a chyllid gyda’r nod o wella cystadleuaeth, cynorthwyo cwsmeriaid a hwyluso arloesi. Un o’i flaenoriaethau yw sicrhau mai’r Deyrnas Unedig yw’r ganolfan ariannol fwyaf diogel a mwyaf tryloyw yn y byd er mwyn diogelu ei aelodau a’u cwsmeriaid. Mae’n gwneud hyn drwy weithio gyda’i aelodau, cyrff gorfodi’r gyfraith, llywodraeth a diwydiant i’w gwneud yn anodd i droseddwyr ymdreiddio i sefydliadau ariannol.

Mae Cyllid y DU yn arwain yr ymgyrch genedlaethol “Take Five – To Stop Fraud” sy’n rhoi cyngor syml a diduedd i helpu pawb i warchod eu hunain rhag twyll ariannol y gellir ei osgoi. Mae hyn yn cynnwys sgamiau twyll e-bost a thros y ffôn a thwyll ar-lein, yn enwedig lle mae’r troseddwyr yn cogio bod yn gwmnïau dibynadwy. Darperir yr ymgyrch gan wahanol bartneriaid yn y diwydiant taliadau, cwmnïau gwasanaethau ariannol, asiantaethau gorfodi’r gyfraith, darparwyr telathrebu a chyrff masnachol, cyhoeddus a thrydydd sector yn y DU.

Mae’r Siarter “Take Five” wedi’i llofnodi gan 29 o sefydliadau bancio ac ariannol blaenllaw. Mae’n disgrifio sut y mae’r partneriaid yn darparu’r ymgyrch drwy gyfathrebu â chwsmeriaid a’u hymrwymiad i ddarparu. Mae’r wefan Take Five yn rhoi cyngor ar wahanol sgamiau gan gynnwys twyll bancio; sgamiau sieciau; twyll cludwyr; sgamiau stepan drws; sgamiau gwyliau; dwyn hunaniaeth; sgamiau dynwared; sgamiau buddsoddi; sgamiau prynu; a sgamiau rhamant. Mae’n egluro beth yw’r sgamiau, yn rhoi enghreifftiau a chyngor ar sut i’w hadnabo.

Y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol

Sefydlwyd y cynllun hwn gan y Llywodraeth i warchod cwsmeriaid cwmnïau gwasanaethau ariannol a fethodd, drwy dalu iawndal i gwsmeriaid. Mae'n cael ei ariannu gan y diwydiant gwasanaethau ariannol drwy lefïau blynyddol. Mae'r cynllun yn rhoi gwybodaeth am sgamiau ariannol yn y DU drwy restru'r 5 sgam mwyaf cyffredin a rhoi cyngor ar sut i gwffio yn eu herbyn.

Get Safe Online

Mae Get Safe Online yn cynnwys gwybodaeth ddiduedd, ffeithiol a hawdd ei deall am sut i fod yn ddiogel ar-lein. Mae gwefan Get Safe Online yn rhoi cyngor ymarferol i bobl ar sut i warchod rhag twyll, dwyn hunaniaeth, feirysau a phroblemau ar-lein eraill drwy eu cyfrifiaduron a dyfeisiau symudol. Mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am nifer o bynciau cysylltiedig. Ar wahân i roi gwybodaeth werthfawr drwy'r wefan, mae Get Safe Online yn trefnu digwyddiadau cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o sgamiau ar-lein gan weithio'n agos ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrff eraill ar weithgareddau allgymorth. Awgrymodd un o'r bobl a holwyd y gellid gwella'r wybodaeth sydd ar gael i fod yn fwy cynhwysol o grwpiau ymylol.

Think Jessica

Sefydlwyd Think Jessica i gofio am wraig hŷn a gafodd ei thwyllo gan sgam. Arferai â bod yn elusen ymgyrchu lwyddiannus i geisio amddiffyn pobl hŷn a bregus rhag twyll. Fodd bynnag, ers y llynedd daeth yn wefan wybodaeth yn bennaf sy'n egluro sut y mae sgamiau ffôn, post a galw'n ddiwahoddiad yn gweithio a beth y gellir ei wneud i warchod pobl hŷn a bregus a allai fod mewn perygl o gael eu twyllo gan y sgamiau hyn, ac mae hefyd yn darparu deunydd addysgol. .

Y sector tai

Mae gan gymdeithasau tai yng Nghymru brosesau yn eu lle i gynorthwyo tenantiaid sydd efallai'n cael eu cam-drin yn ariannol, ac mewn rhai achosion yn ystyried anghenion penodol pobl hŷn. Mae'r cymorth i denantiaid yn amrywio ond gall gynnwys help i hysbysu banciau neu gwmnïau cardiau credyd; sefydlu cyfrifon banc newydd; gwella diogelwch (e.e. larymau, camerâu a newid cloeau); rhannu gwybodaeth yn fewnol; a rhoi gwybod a chyfeirio pobl at asiantaethau statudol a chyrff trydydd sector.

Pan fydd cam-drin ariannol yn cael ei adnabod, mae cymdeithasau'n gweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys y trydydd sector, i roi mesurau yn eu lle i ddiogelu'r unigolyn. Y nod yw gwneud yr hyn sydd er lles gorau'r unigolyn. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cyfeirio at Dimau Diogelu awdurdodau lleol a mudiadau cymorth trydydd sector perthnasol; helpu pobl i adrodd digwyddiadau i'r heddlu; cymorth gan staff cyngor ariannol y cymdeithasau; mesurau i atal drwgweithredwyr; a chyfrannu at gyfarfodydd aml-asiantaethol.

Mae cymdeithasau tai'n tueddu i beidio â theilwrio cymorth cam-drin ariannol i bobl hŷn, gan weithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Mae rhai o'r mudiadau mwy sy'n darparu llety penodol i bobl 55+ oed, cynlluniau tai lloches a gofal ychwanegol, yn darparu cymorth tenantiaeth mewnol i'w preswylwyr. Mae eu staff wedi eu hyfforddi mewn diogelu a sut i adnabod cam-drin er mwyn sicrhau lles y preswylwyr, ac mewn rhai achosion deallwn fod staff hefyd wedi eu hyfforddi i adnabod cam-drin ariannol a phryd i gyfeirio achosion at yr heddlu, yn ogystal â rhoi cyngor ar faterion ariannol.

Cyfeiriadau

1 https://www.who.int/news/item/14-06-2017-abuse-of-older-people-on-the-rise-1-in-6-affected

2 https://www.thewi.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/49885/100325besafefinalenv1.pdf

3 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cenedlaethol-strategaeth-2016-i-2021.pdf

4 https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio-cymru-o-blaid-pobl-hyn

5 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/y-strategaeth-ar-gyfer-pobl-hyn-yng-nghymru-2013-2023.pdf

6 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents/enacted

7 https://thenationalcareline.org/AccessingHelp/ActionOnElderAbuse

8 SafeLives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse: https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Safe%20Later%20Lives%20-%20Older%20people%20and%20domestic%20abuse.pdf

9 Smith / Women's Aid Federation of England (2018) The Femicide Census: 2017 findings. Adroddiad blynyddol ar achosion o fenyw-laddiad yn 2017.

10 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabuseprevalenceandtrendsenglandandwales/yearendingmarch2020

11 https://www.who.int/news/item/14-06-2017-abuse-of-older-people-on-the-rise-1-in-6-affected

12 https://www.theguardian.com/society/2020/nov/29/one-in-five-older-people-in-the-uk-have-been-abused-poll-finds

13 https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/elder-abuse

14 https://academic.oup.com/bjsw/article/49/5/1234/5211414

15 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/480942/Disability_and_domestic_abuse_topic_overview_FINAL.pdf

16 ibid

17 http://www.ncpop.ie/userfiles/file/ncpop%20reports/Abuse%20of%20Older%20People%20with%20Dementia%20A%20Review.pdf

18 Imkaan (2020) The Impact of the Dual Pandemic's: Violence Against Women & Girls and COVID-19 on Black and Minoritised Women & Girls

19 ibid

20 BAWSO (2020) Domestic abuse from a BME perspective: https://bawso.org.uk/home/what-is-domestic-abuse/domestic-abuse-from-a-bme-perspective/

21 Safelives (2015) "Supporting B&ME victims – what the data shows".

22 Izzidien, S. (2008) 'I can't tell people what is happening at home': Domestic Abuse within South Asian Communities – The Specific Needs of Women, Children and Young People'.

23 Lovatt, J., Gager. And Ramji, F. (2020) 'We are Invisible- The experiences of BAME Women.' Accessed from https://freedomnews.org.uk/we-are-invisible-the-experiences-of-women-in-the-criminal-justice-system/.

24 http://www.galop.org.uk/wp-content/uploads/Galop_domestic-abuse-03a-low-res-1.pdf

25 ibid

26 SafeLives. (2018). Free to be Safe: LGBT People Experiencing Domestic Abuse

27 Stonewall (2018) LGBT in Britain: Home and Communities https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/lgbt_in_britain_home_and_communities.pdf

28 Stonewall &NFP energy (2018) Supporting Trans women in domestic and sexual violence services

29 Adroddiad Cymorth i Ferched Cymru: Rurality and VAWDASV

30 Grierson, J. (2020) Domestic abuse killings 'more than double' amid Covid-19 lockdown. The Guardian. 15th April 2020. https://www.theguardian.com/society/2020/apr/15/domestic-abuse-killings-more-than-double-amid-covid-19-lockdown

31 https://www.olderpeoplewales.com/en/stopping-abuse/action-group.aspx

32 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020) Llety a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin: Creu dadl dros newid - https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Accommodation_Workshop_Report_w.sflb.ashx

33 https://www.olderpeoplewales.com/cy/stopping-abuse/action-group.aspx

34 Adroddiad Blynyddol 2019-20 Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru (2020) https://bwrdddiogelu.cymru/2020/11/30/annual-report-2019-20/?noredirect=cy_GB

35 https://irisi.org/iris-response-to-the-covid-19-pandemic-a-rapid-research-report/

36 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents

37 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted

38 https://www.ageuk.org.uk/information-advice/health-wellbeing/relationships-family/protection-from-abuse

39 Age Cymru (2020) Taflen 78w: Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru rhag camdriniaeth ac esgeulustod https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/information-guides-and-factsheets/fs78w.pdf

40 https://diogelu.cymru/adu/ap/a1p.p2.html

41 https://wearehourglass.org/financial-abuse

42 https://survivingeconomicabuse.org/

43 Cymdeithas Bancwyr Prydain / Cyngor ar Bopeth (2016) Addressing financial abuse https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Debt%20and%20Money%20Publications/Addressing%20Financial%20Abuse%20-%20AFD%20report.pdf

44 https://survivingeconomicabuse.org/

45 https://breakthesilencedv.org/financialabuse/

46 https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/financial-abuse/

47 https://www.ageuk.org.uk/information-advice/health-wellbeing/relationships-family/protection-from-abuse

48 https://www.thinkjessica.com/shocking-facts/

49 World Health Organisation (2017) Abuse of older people on the rise – 1 in 6 affected https://www.who.int/news/item/14-06-2017-abuse-of-older-people-on-the-rise-1-in-6-affected

50 Age UK (2015) Financial Abuse Evidence Review Ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/money-matters/financial_abuse_evidence_review-nov_2015.pdf

51 Cooperative Bank / Refuge (2020) Know Economic Abuse https://www.co-operativebank.co.uk/aboutus/ourbusiness/ethicalpolicy/ethicalcampaigns/FinancialAbuse

52 Friends Against Scams – Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS) - rhaglen gan dimau sgamio'n amddiffyn ac atal pobl rhag cael eu sgamio

53 Age UK (2017) Older people, fraud and scams https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/safe-at-home/rb_oct17_scams_party_conference_paper_nocrops.pdf

54 Age UK (2015) Financial Abuse Evidence Review https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/money-matters/financial_abuse_evidence_review-nov_2015.pdf

55 https://www.independent.co.uk/money/spend-save/family-fraud-rise-britain-s-older-people-are-being-preyed-younger-relatives-10446274.html

56 Age UK (2015) Only the tip of the iceberg: Fraud against older people evidence review https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/safe-at-home/rb_april15_only_the_tip_of_the_iceberg.pdf

57 Age UK (2017) Older people, fraud and scams https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/safe-at-home/rb_oct17_scams_party_conference_paper_nocrops.pdf

58 Y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig / Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol Ôl-Gymhwyso ac Ymarfer Proffesiynol (201X) Financial Scamming: Our Campaign and Research to Date https://www.tradingstandards.uk/media/documents/policy/research/scam-booklet-final-draft.pdf

59 Cyllid y DU (2018) Cod Ymarfer Cam-drin Ariannol https://www.ukfinance.org.uk/financial-abuse-code-practice

60 https://www.rbs.com/rbs/news/2019/10/natwest-launches-flagship-partnership-with-safelives-to-protect-.html

61 https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/15-06-15/UK_legal_system_is_failing_older_people_says_Commissioner.aspx

62 https://www.welshwomensaid.org.uk/cy/about/annual-reports/

63 https://safelives.org.uk/training/responding_to_older_people_training

64 Financial Ombudsman (2020) Lessons from the past, ambitions for the future: our 2019/20 complaints data analysis - https://www.financial-ombudsman.org.uk/data-insight/insight/analysis-annual-complaints-data-2019-20

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales